Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/2019

Am Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 - 2023



**HYDREF 2019**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Unwaith eto mae'n bryd cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol fel y gallwn ystyried sut rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella.

Wrth gwrs rydym yn ceisio cyflawni'r amcanion hynny mewn amgylchedd mwyfwy heriol, wrth inni ymdrechu i wella mewn perthynas â'n hamcanion penodol. Mae ein gweledigaeth yn eithaf clir yn yr ystyr mai ein nod yw dechrau'n dda, byw'n dda, a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach a ffyniannus. Mae'n nod gwych, yn enwedig o gofio geiriau'r democrat cadarn ei safiad, Adlai Stevenson, a ddywedodd un tro:

*'It's not the years in your life but the life in your years.'*

Gallai hwn fod yn fantra priodol ar gyfer ein strategaeth gorfforaethol wrth i ni gydweithio i symud Sir Gaerfyrddin ymlaen. Gaf i unwaith yn rhagor ddiolch i'r swyddogion am arddull a fformat yr adroddiad. Mae wedi cael llawer o ganmoliaeth yn y gorffennol, ac mae hynny'n gwbl deilwng gan ei fod yn dangos yn glir, gyda darluniau a straeon uniongyrchol, y cynnydd rydym wedi ei wneud.

Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi mai dim ond 7 golau gwyrdd rydym wedi eu cael mewn perthynas â'r 15 amcan gwella, a bod ein perfformiad wedi dirywio mewn 8. Mae hwn yn gryn gyflawniad o gofio'r cyfnod o gyni cyllidol, sy'n parhau er gwaethaf cyhoeddiad y cyn Brif Weinidog ei fod drosodd, a'r setliad cyllidebol gan Lywodraeth Lafur Cymru yng Nghaerdydd, sy'n lleihau o hyd ac o hyd.

Yn dilyn datganiad y Trysorlys yn yr hydref, golygodd rhyddhau cyllid pellach gynnydd enfawr o 7% i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, ond cawsom ni ein hanwybyddu unwaith eto er gwaethaf yr holl sicrwydd a geiriau caredig yn ystod y flwyddyn. Mae'r effaith yn amlwg i bawb gan fod 20 o'r 35 o fesurau cenedlaethol wedi dirywio, sy'n golygu llai o welliant nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal â bod yn gamp ryfeddol o ystyried y gostyngiad yn y gyllideb, mae hyn yn tystio i waith caled ac ymrwymiad ein staff blaengar, ac rwyf yn eu canmol eto am ymroi i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i bobl Sir Gaerfyrddin.

Yr Arlywydd Kennedy, Democrat arall, wnaeth herio ei genhedlaeth i groesawu newid, gan awgrymu mai newid yw trefn bywyd a rhybuddio os gwnawn ni edrych i'r gorffennol neu ar y presennol yn unig, fod peryg y gwnawn ni golli golwg ar y dyfodol. Nid oes peryg o hynny yma yn Sir Gaerfyrddin. Daliwn ati i ddyfalbarhau i wynebu'r heriau o ran gwella drwy fod yn effeithlon ac yn arloesol, a hynny â'r holl egni a dyfeisgarwch sy'n llywio popeth a wnawn fel Awdurdod.

**Y Cynghorydd Emlyn Dole**
**Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin**

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni:
Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch neges e-bost atom GwrandoArnochChi@sirgar.gov.uk

**Y Cynghorydd Emlyn Dole**
Arweinydd



# Cynnwys


Tudalen

**Rhagarweiniad** 4

## Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin

Dechrau'n Dda

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd 14
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw 16
3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr 18
4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 20

Byw'n Dda

5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi 24
6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir 26
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael 28
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) 30

Heneiddio'n Dda

9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel 34
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio 36
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin 38

Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol 42
13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth 44
14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru 46
15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau 50 a 52

**Atodiadau**

1. Gofynion cyfreithiol 56
2. Data manwl am Fesurau Llwyddiant ein Hamcanion Llesiant 61
3. Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (cyhoeddwyd Mehefin 2019) 71
4. Sut mae ein canlyniadau'n cymharu o ran y mesurau y mae holl Gynghorau Cyr yn eu casglu 77
5. Adroddiadau rheoleiddio a dderbyniwyd 2018/19 81
6. Adborth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (Gorffennaf 2019) 82
7. Disgwyliadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 83

# Rhagarweiniad

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddwyd Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2018-23. Adroddiad Blynyddol yw'r ddogfen hon sy'n ymchwilio i'n cynnydd yn y flwyddyn gyntaf 2018/19 o'r strategaeth.

Mae'n cael ei chynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Hefyd mae'n ddyletswydd statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

### Gweithio gyda Phartneriaid

Fel Cyngor, nid ni yn unig sy'n gweithio i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Sector Cyhoeddus ac mae'r bartneriaeth hon wedi cyhoeddi Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddodd yr holl gyrff cyhoeddus yn y bartneriaeth eu Hamcanion Llesiant eu hunain y llynedd, a byddwn yn gweithio i gyflawni llawer o amcanion cyffredin.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol** - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys tair thema allweddol sy'n edrych ar ein rôl fel cyflogwr, darparwr gwasanaeth ac arweinydd cymunedol. Mae chwe amcan strategol o dan y tair thema hynny. Mae Cynllun Gweithredu manwl wedi cael ei baratoi i ddangos sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hynny.

Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwaith gyda grwpiau gwarchodedig allanol wedi parhau i dyfu ac mae ein partneriaeth â grwpiau cymunedol wedi cryfhau. Mae Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei chadeirio gan Hyrwyddwr Anabledd y Bwrdd Gweithredol, wedi parhau i ddatblygu, gyda golwg ar sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn diwallu anghenion pobl anabl ar draws y sir.Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill i gyflwyno a thrafod ymgyngoriadau allweddol megis y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

**Yr iaith Gymraeg** (hefyd, gweler *Amcan Llesiant 14)*

Rydym yn parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg ledled y Cyngor. Mae llawer iawn o gyfathrebu mewnol wedi cael ei wneud ar draws y sefydliad a chafodd negeseuon allweddol eu cyfleu i staff mewn cyfleoedd amrywiol, gan gynnwys sioeau teithiol i staff mewnol. Mae cyfarfod â staff wyneb yn wyneb a thrafod unrhyw faterion sy'n codi yn eu gwaith bob dydd yn allweddol i lwyddiant y Safonau. Cymerwyd y cyfle hefyd i hyrwyddo clipiau sain ar-lein, rhestri termau, fideos a thempledi newydd yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgu neu wella eich Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae staff wedi gallu manteisio ar gyfleoedd amrywiol megis Cyrsiau Dwys a Chyrsiau Preswyl. Mae ein Hymgynghorydd Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) yn arwain ar y gwaith hwn a chedwir cysylltiad agos â'r tîm Polisi a Phartneriaeth, Rheolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a'n dysgwyr. Mae'r swyddog wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i staff drwy ymchwilio a darparu amrywiaeth o gyrsiau sy'n bodloni anghenion gwahanol ein staff.

Mae Fforwm Strategol y Sir, a arweinir gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion polisi iaith, wedi parhau â'i waith o ddatblygu rhaglen i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth at baratoi'r Strategaeth Hyrwyddo ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r Safon Hyrwyddo.

# Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

**Gweler *Atodiad 2* i gymharu perfformiad**

Mae'r Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ymdrechu i wella'r mesurau canlynol. Allwedd **Gwell** canlyniad nag o'r blaen / **Gwaeth** canlyniad nag o'r blaen

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dechrau'n Dda** | ***1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 14* | **10.4%** o blant mewn gofal wedi gorfod **symud gwaith 3 neu fwy** | Gwaeth |
| **Dechrau'n Dda** | **26.6%** o blant **dros eu pwysau neu'n ordew** | ***2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 16* | Gwell |
| **Dechrau'n Dda** | ***3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 18* | **363.1** yw'r **sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau)** ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 | Gwell |
| **Dechrau'n Dda** | **1.8%** o ddisgyblion blwyddyn 11 **nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** (NEET) | ***4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 20* | Gwaeth |
| **Byw'n Dda** | ***5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.*** | **35.5%** o aelwydydd yn **byw mewn tlodi** *Mwy o fanylion ar dudalen 24* | Gwaeth |
| **Byw'n Dda** | **419** o swyddi wedi'u creu | ***6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 26* | Gwell |
| **Byw'n Dda** | ***7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.*** *Mwy o fanylion ar dudalen 28* | **247** Tai Fforddiadwy Ychwanegol | Gwell |
| **Byw'n Dda** | **66%** o Oedolion yn dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda iawn** | ***8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).*** *Mwy o fanylion ar dudalen 30* | Gwaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Heneiddio'n Dda** | *9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 34* | **51.6%** <br>o Oedolion yn teimlo bod ganddynt **ymdeimlad o gymuned** | Gwell |
| |  **47.5%**<br>Cytuno bod **gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael** yn yr ardal | *10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 36* | Gwaeth |
| | *11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 38* | **16.6%** o bobl yn **unig**  | Gwell |
| **Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus** | Ein **cyfradd ailgylchu** yw<br>**58.94%**  | *12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 42* | Gwaeth |
| | *13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 44* | **Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael:** <br>**5.2%** o'n rhai Dosbarth **A**<br>**4.2%** o'n rhai Dosbarth **B**<br>**12.5%** o'n rhai Dosbarth **C** | Gwaeth |
| | Cymraeg<br>**37.8%** o'n pobl yn gallu siarad Cymraeg | *14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 46* | Gwaeth |
| | *15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.*<br>*Mwy o fanylion ar dudalen 50* |  **9.8**<br>**o ddiwrnodau salwch y staff** y flwyddyn | Gwell |

## Mesurau'r Canlyniadau

Un o'r dulliau sylfaenol a argymhellir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw newid ffocws o'r cynnydd o ran allbwn gwasanaeth i gyswllt cryfach rhwng gweithredoedd cyrff cyhoeddus a'r canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn annog canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wneir, yn ogystal â'r mewnbynnau a'r prosesau sydd gan sefydliad.

# Gwybodaeth Asesu Arall

## Bodlonrwydd Dinasyddion

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd wedi eu seilio ar fwy na 12,000 o gyfweliadau a gynhaliwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Rhoddwyd cyfweliad i fwy na 600 yn Sir Gaerfyrddin.

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau 2018/19 ar 18 Mehefin 2019, a chyhoeddwyd gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan oedd ar gael.

Rydym wedi mynd â'r canlyniadau sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel Awdurdod Lleol ac wedi trefnu'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod o'r safle gwaethaf (22ain) i'r gorau (1af) ***- Gweler Atodiad 3.***
Cofiwch mai nid perfformiad y Cyngor sydd i gyfrif am bob un o'r canlyniadau hyn.

**Dolen i Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru**

# Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hefyd mae **cyfres o fesurau Cenedlaethol** y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu - ***Gweler Atodiad 4***

Mae dwy brif ffordd o fesur gwelliant:-

- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

- Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

### Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y Gyfres Genedlaethol o Fesurau:-

Mae'r gyfres genedlaethol hon yn cynnwys 35 mesur, ac mae modd mesur gwelliant o flwyddyn i flwyddyn yn achos 33 ohonynt. Yn ystod 2018/19, roedd **36%** o'n mesurau wedi gwella, tra bo **61%** wedi dirywio. Mae wedi bod yn fwyfwy anodd cynnal gwelliant fel y caiff ei fesur gan y Dangosyddion Perfformiad hyn o achos gostyngiadau parhaus yn y gyllideb a chynnydd mewn galw a disgwyliadau.

Dengys y tabl isod y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn:

| Blwyddyn | Wedi gwella | Yn gyson | Wedi dirywio | Gwahaniaeth Net (Wedi gwella - Wedi dirywio) |
|---|---|---|---|---|
| **2018/19** | **36% (12 mesur)** | **3% (1 mesur)** | **61% (20 mesur)** | **-25%** ↓ |
| 2017/18 | 64% (16 mesur) | 0% (0 mesur) | 36% (9 mesur) | 28% ↓ |
| 2016/17 | 65% (17 mesur) | 4% (1 mesur) | 31% (8 mesur) | 34% ↑ |
| 2015/16 | 57.5% (23 mesur) | 17.5% (7 mesur) | 25% (10 mesur) | 32.5% ↑ |
| 2014/15 | 56% (24 mesur) | 14% (6 mesur) | 30% (13 mesur) | 26% ↓ |
| 2013/14 | 59% (26 mesur) | 11% (5 mesur) | 30% (13 mesur) | 29% |

### Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru o ran y Gyfres Genedlaethol o Fesurau

Ffordd sefydledig o gymharu canlyniadau yw edrych ar gyfran y dangosyddion sydd gan awdurdod yn chwarter uchaf y canlyniadau, y chwarter isaf, ac uwchlaw ac islaw'r canlyniad canolrif.

O blith y 35 o fesurau yn y gyfres, ar hyn o bryd mae gennym ddata cymharol ar gyfer 19 o fesurau lle mae **42%** (8 o fesurau) yn y **ddau chwartel uchaf**, ac mae hyn yn llai na'r 56% ar gyfer y llynedd.



# Canlyniad Rheoleiddiol

| | |
|---|---|
| WALES AUDIT OFFICE<br>SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU | Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o adroddiadau am Wasanaethau'r Cyngor a chaiff y rhain eu rhestru yn **Atodiad 5** |

Daeth adroddiad am un o'n Hamcanion Llesiant i'r casgliad:-

***'Bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth sefydlu'r 'cam' ac roedd wedi ystyried yn effeithiol y pum ffordd o weithio yn y camau yr oedd yn eu cymryd i'w gyflawni'***

***Swyddfa Archwilio Cymru – Chwefror 2019***

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Ymchwilio i 'Dechrau'n Dda-Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw'

**Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2018-19**

Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Gynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2018-19. Yn gryno, daeth i'r casgliad:-

***'Bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus'***

**Tystysgrif Gydymffurfio ar gyfer Cynllun Gwella y Cyngor 2019-20**

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru Dystysgrif Gydymffurfio ar gyfer Cynllun Gwella'r Cyngor 2019-20. Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Estyn Yn ystod y flwyddyn academaidd lawn ddiwethaf 2017-18, bu i Estyn arolygu 16 *o ysgolion cynradd ac un Uned Cyfeirio Disgyblion.* Cafodd yr ysgolion hyn eu harolygu o dan y fframwaith arolygu newydd. Derbyniodd y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd '**Da**' neu **'Gwell'** ym mhob un o'r pum maes arolygu. Cafodd nifer calonogol o'n hysgolion ddyfarniadau ***'Rhagorol'*** am feysydd penodol yn y Fframwaith ac fe'u gwahoddwyd i ddarparu '*Astudiaethau Achos o Arferion Da'* i gefnogi gwaith ysgolion eraill ar sail genedlaethol. Mae hyn yn achos cryn gydnabyddiaeth a dathlu ac mae'n adeiladu'n dda ar ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Yn wir, mae ein hysgolion a'n gwasanaethau wedi parhau i weithio'n galed drwy bartneriaeth effeithiol i gyflawni deilliannau mor ddymunol a chalonogol.

Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales Daeth Adroddiad yr Arolygiad o Bobl Hyn - Awst 2019 i'r casgliad:- *"y gall pobl fod yn fwyfwy hyderus fod yr awdurdod lleol yn sylweddoli mai oedolion yw'r bobl orau i farnu eu llesiant eu hunain, nodwyd yr eir ati i alluogi pobl i gael gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis nhw."* a bod
*"Staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio tuag at weledigaeth a rennir o fynd i'r afael ag anghenion pobl yn y gymuned, gan ganolbwyntio mwyfwy ar atal a hyrwyddo annibyniaeth."*

| | |
|---|---|
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Commissioner for Wales<br>Adborth<br>Gorffennaf 2019<br>Gweler Atodiad 6 | **Eu dyfarniadau:-**<br>*'Ymagwedd gadarnhaol a hunanfyfyrio gonest'*<br>*Yn gyffredinol, rydych yn gwneud cynnydd da ac rydym yn croesawu eich gwaith i gyfuno eich cynlluniau yn un, fel rhan o ymagwedd fwy integredig.'* |

## 'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'

### Dechrau'n Dda



### Byw'n Dda



### Heneiddio'n Dda



### Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



# Amcanion Llesiant

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.

4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.

15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

# Dechrau'n Dda



# Dechrau'n Dda

Y ffordd rydym yn gweithio – ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

## Cadw Pobl Ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant

*IHoffwn ddiolch yn fawr iawn i Bev, Hugh, Kola a phawb yn Cynnydd.*

*Pan ddaeth fy mab F i gysylltiad â Phrosiect Cynnydd gyntaf nôl ym mis Hydref 2017, roedd yn 15 oed ac yn mynd drwy gyfnod anodd iawn. Roedd yn gweld pethau'n galed yn yr ysgol ac yn anhapus iawn yno, ac roedd mewn trwbwl drwy'r amser. Er bod athrawon rhagorol yn yr ysgol, nid oedd yn cyfathrebu ag unrhyw un ohonynt. Fe wnaeth hyd yn oed gerdded mas sawl gwaith a cherdded yr holl ffordd adref - 8 milltir! Roeddwn i'n teimlo dan lawer o straen hefyd, yn gweld fy mab mor anhapus. Yn ogystal â chael amser caled yn yr ysgol, nid oedd yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau y tu allan i'r ysgol fel yr arferai ei wneud pan oedd yn iau.*

*Wedyn fe gyfeiriodd yr ysgol ef at Brosiect Cynnydd. Daeth Bev i mewn a siarad â F yn unigol a ni'n dau gyda'n gilydd, ac roeddwn i'n teimlo'n syth ein bod ni mewn dwylo diogel.*

*Dechreuodd yng Nghlwb Ieuenctid Streets a hefyd cafodd sesiynau 1:1 gyda Hugh a oedd yn canolbwyntio ar gyrsiau RhCA mewn technoleg cerddoriaeth. Mae ganddo ddiddordeb mewn cyfrifiaduron felly mae wedi bod ar leoliadau gwaith integredig a chydweithredol yn Adran Cymorth TG Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ResO IT ac adran TG Cyngor Sir Caerfyrddin. Gweithiodd hefyd mewn cegin gwesty (dysgodd nad oedd am fod yn gogydd! - profiad buddiol gan fod hynny'n un o'i ddiddordebau).*

*Roedd diddordeb mawr ganddo yn ei waith ym maes technoleg cerddoriaeth gyda Hugh. Mae bellach yn buddsoddi pob ceiniog sydd ganddo mewn offer ac mae wedi cofrestru ar gwrs Technoleg Cerddoriaeth yng Ngholeg Sir Gâr ar gyfer mis Medi nesaf. Felly bydd yn dysgu unwaith eto a hynny mewn pwnc y mae'n angerddol yn ei gylch ac yn dangos ymrwymiad iddo yn y tymor hir. Diolch i Hugh am gynnau'r tân yn ei fol!*

**E-bost a anfonwyd gan fam person ifanc at dîm Cynnydd**

# Amcan Llesiant 1

## Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

### Nifer y plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i leihau

Mae gennym un o'r niferoedd isaf yng Nghymru o Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae timau ataliol megis y gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a'r tîm Ar Ffiniau Gofal wedi cael eu hailwampio i ganolbwyntio ar weithio'n ddwys gyda theuluoedd a phlant, er mwyn ceisio osgoi'r angen am ymyrraeth statudol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae arferion systematig sy'n cynnwys y model *Signs of Safety* yn rhan annatod o'n timau gofal plant. Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ddiwygiedig, sy'n cynnwys 13 o brosiectau, wedi bod yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gyda'r nod o atal a lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Dechreuwyd cyflwyno'r cynnig gofal plant am ddim am 30 awr yn llawn ym mis Ionawr 2019.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Gan fod rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i iechyd a llesiant hirdymor. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd
- Gan fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal

## Mesur Llwyddiant

**10.4%** o blant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy





## Egluro'r Canlyniadau

**% y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2017 sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (Siart 1)**



| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gar | 14.5% | 5.4% | 3.9% | 3.4% | 4.0% | 0.9% |
| Cymru | 13.8% | 13.5% | 11.9% | 12.7% | 11.5% | |

Rydym wedi gweld gostyngiad bach mewn perfformiad eleni gydag 19 o blant wedi symud 3 gwaith neu fwy o gymharu ag 17 yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, mae'n dangos gwelliant cyffredinol o 4.5% ers 15/16. *(Gweler Siart 1)*

**% y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2017 sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (Siart 2)**



| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gar | 11.7% | 11.7% | 14.9% | 9.2% | 8.8% | 10.4% |
| Cymru | 8.3% | 9.0% | 9.8% | 9.8% | 9.6% | |

Mae sefydlogrwydd mewn ysgolion hefyd yn ffactor pwysig wrth wella canlyniadau, ac mae'n bwysig nodi bod plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn profi llawer llai o symudiadau ysgol nag yn unman arall yng Nghymru – 0.9% yn ystod 2018/19 (gwell na chyfartaledd Cymru sef 11.5% yn 2017/18) *(Gweler Siart 2)*

Yn y **tymor hir** erys ein pwyslais ar atal a chadw plant yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd, y tu allan i'r system ofal lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â darparu adnoddau ychwanegol i ofalwyr maeth i gefnogi plant yn eu gofal er mwyn osgoi'r angen i symud lle bynnag y bo'n bosibl.

## Y cynnydd a wnaed

- **Bydd cynnig 30 awr o ofal plant am ddim** yn arbed arian sylweddol i lawer o deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin. Hyd yn hyn mae **557** o geisiadau wedi dod i law gan rieni/gofalwyr Sir Gaerfyrddin, mae **180** o ddarparwyr Gofal Plant yn Sir Gaerfyrddin wedi llofnodi contractau, ac mae **£172,640.25** mewn taliadau wedi cael eu gwneud i ddarparwyr gofal plant ers gweithredu'r cynnig.
- Rydym yn parhau i ymestyn y dull **Tîm o Amgylch y Teulu** (TAF) ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Mae'r ddogfen Cymhwysedd ynghylch trothwyon a mynediad at wasanaethau TAF wedi'u cwblhau. Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd newydd, a'r prosiect TAF mewn ysgolion newydd hefyd wedi dechrau cael ei roi ar waith ers Ebrill 2019.
- Cafodd **9291 o unigolion** gymorth gan brosiectau **Teuluoedd yn Gyntaf** yn ystod 2018/19. O Ebrill 2019 bydd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynnwys gyda 6 ffrwd gyllido arall dan y Grant Plant a Chymunedau.
- Mae gwasanaeth **Dechrau'n Deg** yn cael ei gyflwyno'n llawn ar draws 18 ardal, gan gwmpasu 768 o godau post yn Sir Gaerfyrddin. Mae Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg yn darparu Rhaglen Plant Iach Cymru drwy ddull amlddisgyblaeth.
- Mae hyfforddiant **ymwybyddiaeth o ymlyniad** wedi cael ei roi i bob un o'r 73 o ysgolion sydd â phlant sy'n derbyn gofal, ac mae'n rhan o'r hyfforddiant craidd yng ngham un y 'rhaglen trawsnewid ymddygiad' mewn ysgolion.
- Mae grŵp ymgynghori ar gyfer plant â phrofiad o ofal o'r enw ECHOES, sy'n cael ei redeg ar y cyd â 'Voices from Care' a'r Gwasanaethau Plant, wedi datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2019.

### DATHLU LLWYDDIANT: PLANT SY'N DERBYN GOFAL A'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL

# GŴYL DDATHLU

**Yng nghwmni swyddogion y Cyngor, cafodd nifer o blant a phobl ifanc wobr am eu llwyddiant academaidd, eu gwaith celf, a'u cyfraniadau ym maes chwaraeon ac wrth wirfoddoli. Rhywun ifanc oedd arweinydd y digwyddiad ac fe wnaeth ei waith yn effeithiol iawn, a rhoddwyd sgwrs arbennig.**






Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.



# Amcan Llesiant 2
## Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

### Mae gordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau

Nid yw'r gyfradd ordewdra yn Sir Gaerfyrddin wedi bod cyn ised ers pedair blynedd. Mae hwn yn amcan buddsoddi i arbed yn y tymor hir sy'n sicrhau iechyd tymor hir plant.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Roedd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi clustnodi mai'r man mwyaf poblogaidd gan blant i chwarae yw'r tu allan, ond hefyd canfuwyd bod 32% o rieni'n poeni am ddiogelwch eu plant.
- Roedd asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

### Mesur Llwyddiant

**26.6%** o blant

dros bwysau neu'n ordew



(Gwelliant ar y flwyddyn flaenorol)






## Egluro'r Canlyniadau

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei data am Raglen Mesuriadau Plant Cymru 2017/18 sy'n cynnwys casgliadau'r rhaglen mesuriadau plant a gynhaliwyd gyda phlant sy'n mynychu dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion yng Nghymru. 93.2% o'r plant sy'n gymwys wedi cymryd rhan yn y rhaglen yn Sir Gaerfyrddin gyda 94.1% yng Nghymru.




- Mae tuedd ar i lawr wedi bod yn **% y plant dros bwysau neu ordew** 4 i 5 oed yn Sir Gaerfyrddin dros y pedair blynedd diwethaf. O **30.7%** yn 2014/15 i **26.6%** yn 2017/18 ac wedi symud o'r 3ydd uchaf i'r **11eg uchaf yng Nghymru.** Mae'r bwlch rhyngom ni a chyfartaledd Cymru wedi cau ac ar hyn o bryd rydym ychydig yn uwch na'r ffigwr o 26.6%.
- Mae cyfran y plant sy'n **ordew** wedi lleihau ychydig o 14% yn 2016/17 i 13% yn 2017/18.
- Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i fywyd fel oedolyn, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon a rhai mathau o ganser.

## Y cynnydd a wnaed

- Mae'r **Cynllun Ysgolion Iach** yn ei 15fed flwyddyn bellach gyda 100% o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, llwyddodd 9 ysgol i gwblhau cam arall o'r cynllun a chyflwynwyd eu gwobrau iddynt yn y seremoni flynyddol ar gyfer Gwobrwyo Ysgolion Iach. 109 o ysgolion wedi cyflawni cam 1; 106 o ysgolion wedi cyflawni cam 2; 101 o ysgolion wedi cyflawni cam 3; 72 o ysgolion wedi cyflawni cam 4; 37 o ysgolion wedi cyflawni cam 5; 2 ysgol, sef Parc y Tywyn a Nantgaredig, wedi cyflawni Cam 6; 2 o ysgolion, sef Nantgaredig a Pheniel, wedi cyflawni'r Wobr Ansawdd Genedlaethol.
- Yr hyfforddiant a ddarparwyd i ddisgyblion yn cynnwys; 70 o ddisgyblion blwyddyn 12 wedi mynychu'r cwrs hyfforddiant 2 ddiwrnod i Addysgwyr ar Iechyd Rhywiol a Pherthnasoedd sy'n cael ei ddarparu'n flynyddol gan y tîm Ysgolion Iach mewn partneriaeth â'r Uwch-nyrs Iechyd Rhywiol Leol; 145 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 wedi cael hyfforddiant fel cyfeillion lle chwarae yn ystod y flwyddyn academaidd hon gan y Tîm Ysgolion Iach. O ganlyniad, cafodd 2 ysgol yn yr Awdurdod eu canmol gan ESTYN yn eu hadroddiadau arolygu am weithredu'r cynllun oherwydd ei effaith gadarnhaol ar lesiant eu disgyblion. Mae'r Cynllun Cyfeillion Lle Chwarae yn dal i weithio'n dda iawn mewn ysgolion trwy leihau lefelau unigrwydd, gwrthdaro lefel isel a disgyblion yn teimlo'n fwy diogel.
- Mynychodd 104 o gynrychiolwyr Gynhadledd Llesiant a gynhaliwyd gan y Tîm Ysgolion Iach er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd **Iechyd Meddwl ac Iechyd Emosiynol** disgyblion a staff, ac effaith hynny ar berfformiad.
- Mae Chwaraeon a Hamdden Actif yn ystyried y rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon fel ffordd allweddol o ddatblygu cyfleoedd **gweithgarwch corfforol** mewn ysgolion ac yn y gymuned, gan dreulio amser yn annog pobl ifanc i fwynhau chwaraeon gydol eu hoes. Gan gynnig y llwybr llysgennad llawn o efydd i blatinwm, cynyddodd Chwaraeon a Hamdden Actif nifer y cyfranogwyr o 75000 yn 2016/17 i 107615, gyda 2000 o oriau actif yn cynyddu i 3045 o oriau actif yn 2017/18. Mae 95 o ysgolion cynradd o blith 98 a phob un o'r 12 ysgol uwchradd yn cyflwyno'r rhaglen llysgenhadon ar hyn o bryd, a phob blwyddyn dethlir llwyddiant y rhaglen gyda'r holl wirfoddolwyr.

### Cynllun Ysgolion Awyr Agored Sir Gaerfyrddin






Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 3
## Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

### Mae canlyniadau'r arholiadau'n dal i wella

Mae perfformiad TGAU Sir Gaerfyrddin yn parhau i wella ac mae 58.2% o'n dysgwyr wedi cyflawni dangosydd cynhwysol lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A * i C yn cynnwys iaith a mathemateg). Mae'r canlyniad hwn yn ein gosod yn ddiogel uwchlaw cyfartaledd Cymru o 55.1%.
Ar lefel genedlaethol mae canlyniadau TGAU eleni wedi gwneud y penawdau wrth i effaith pethau fel manylebau arholiad diwygiedig arwain at amrywiant mewn canlyniadau ar draws Cymru. Rhaid inni fod yn ofalus wrth ystyried unrhyw gymariaethau â thueddiadau perfformiad o ddata'r blynyddoedd cynt.
Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn parhau i bwysleisio a chanolbwyntio ar gynnydd ein dysgwyr o'u man cychwyn unigol ac yn credu'n gryf mai dyma gwir fesur llwyddiant a dathlu.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru Addysg yng Ngymru: Cenhadaeth ein Cenedl

## Mesurau Llwyddiant

**363.1** yw'r sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau) ar gyfer disgyblion blwyddyn 11

6$^{ed}$ **uchaf** yng Nghymru
*Ffynhonnell: StatsCymru*

**93.9%**
Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd

**93.8%**
Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd

*Mae'r ddau ganlyniad wedi dirywio ers y flwyddyn flaenorol (Cynradd 94.4% ac Uwchradd 94.3%)*
*Ffynhonnell: StatsCymru*

**84%**
yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn

*(I lawr o'r flwyddyn flaenorol sef 90%)*
**90%** yng Nghymru
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- Y sgôr gyfartalog yn seiliedig ar y **9 canlyniad arholiad gorau** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod 2018/19 (Blwyddyn Academaidd 2017/18) yw 363.1 lle roedd gan y merched sgôr gyfartalog o 375.2 a'r bechgyn 352.5. Mae hwn yn well na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru o 349.5.
- Bu i **bresenoldeb ysgol** mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Gaerfyrddin *ddirywio* yn ystod 2018/19 (Blwyddyn Academaidd 2017/18). Gwnaeth presenoldeb mewn ysgolion cynradd leihau o 94.4% i 93.9% ac o'r 21$^{ain}$ safle i'r 22$^{ain}$ safle, sef y gwaethaf yng Nghymru. Bu i bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd leihau o 94.3% i 93.8% ac o'r 9$^{fed}$ safle i'r 11$^{fed}$ safle. Bydd ymgynghori cadarn gyda Llywodraethwyr, Penaethiaid, y Gwasanaeth Lles Addysg a phobl broffesiynol gysylltiedig er mwyn datblygu cynllun gweithredu i wella presenoldeb ysgol yn y dyfodol.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru roedd 84% o'r cyfranogwyr yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn yn Sir Gaerfyrddin, ac mae hyn wedi lleihau o'r flwyddyn flaenorol sef 90% ac mae'n is na chyfartaledd Cymru. Gallai'r wybodaeth hon amrywio yn dibynnu ar yr aelwydydd a holwyd yn ystod y flwyddyn.

## Y cynnydd a wnaed

- Roedd 72.1% o'r canlyniadau TGAU yn Sir Gaerfyrddin yn rhai A* i C, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 61.6%. Yn ogystal, o edrych ar berfformiad ar gyfer y graddau uchaf a ddyfarnwyd, gwelwyd bod canran galonogol o'n disgyblion sef 18.1.% wedi ennill graddau A* i A o gymharu â 18.5% ledled Cymru.
- Mae ein disgyblion wedi cael llwyddiant pellach o ran Bagloriaeth Cymru, gyda 62.9% o'r disgyblion yn ennill y dyfarniad hwn, o'i gymharu â 57.6% yn ei ennill yn genedlaethol.
- Yng Nghyfnod Allweddol 5, mae'r ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangoswyd gan ein myfyrwyr a'u hysgolion wedi arwain at fod bron i 78% o'r myfyrwyr yn ennill graddau A*-C (cynnydd o 1.8% o gymharu â chanlyniadau 2017) lle gwelwyd bod Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 73.8%. Roedd bron i chwarter o'r graddau a ddyfarnwyd (24.8%) ar lefel A*- A. Adlewyrchwyd y canlyniadau gwell hyn hefyd yn y graddau Safon Uwch Gyfrannol lle dyfarnwyd gradd A - E i 91.8% o geisiadau. Mae ystod fwyfwy effeithiol o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i'n myfyrwyr UG wedi sicrhau cynnydd o 4.6% yn y gyfradd lwyddo A - E dros y tair blynedd diwethaf.
- Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18, bu Estyn yn arolygu 16 o ysgolion cynradd ac un Uned Cyfeirio Disgyblion.  Cafodd yr ysgolion hyn eu harolygu o dan y fframwaith arolygu newydd. Derbyniodd y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd 'Da' neu well ym mhob un o'r pum maes arolygu. Cafodd nifer calonogol o'n hysgolion ddyfarniadau 'Rhagorol' am feysydd penodol yn y Fframwaith ac fe'u gwahoddwyd i ddarparu 'Astudiaethau Achos o Arferion Da' i gefnogi gwaith ysgolion eraill. Mae hyn yn achos cryn gydnabyddiaeth a dathlu ac mae'n adeiladu'n dda ar ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol.  Yn wir, mae ein hysgolion a'n gwasanaethau wedi parhau i weithio'n galed drwy bartneriaeth effeithiol i gyflawni deilliannau mor ddymunol a chalonogol.
- Parhaodd y Rhaglen Moderneiddio Addysg i fynd yn ei blaen gan ddod â budd i filoedd o'n dysgwyr trwy gwblhau prosiectau mawr gwerth £20 miliwn yn Ysgol Sant Ioan Llwyd, Ysgol Parc y Tywyn, Ysgol Pontyberem a chwblhau cam 1 yn Ysgol Llangadog.

### AGORIAD SWYDDOGOL YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN






Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch **yma i gael gweld ein cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 4
## Dechrau'n Dda - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol

### Mae'r nifer sy'n NEET wedi codi am y tro cyntaf mewn 3 blynedd

Mae nifer y bobl ifanc NEET ym Mlwyddyn 11 yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ychydig am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Fodd bynnag mae'r ffigwr o 1.8% yn dal i fod yn is na 2016/17. Yn siomedig, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET ym Mlwyddyn 13. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau y bydd ein holl bobl ifanc yn parhau mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y gweithle.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn lleihau effaith tlodi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddu.
- Mae mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, i gael prentisiaethau, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Mae'n galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

## Mesurau Llwyddiant

**1.8%** o ddisgyblion Blwyddyn 11 a

**4.9%** o ddisgyblion Blwyddyn 13

nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (NEET)
(Y flwyddyn flaenorol - Bl. 11: **1.4%** a Bl. 13: **3.0%)**

Blwyddyn 11

Blwyddyn 13

## Egluro'r Canlyniadau

- 1.8%, neu 32 o ddisgyblion **Blwyddyn 11** yn NEET, sy'n cyfateb i 96.1% o ddisgyblion, neu 1,743 o ddisgyblion sy'n dal mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Roedd nifer fach o ddisgyblion (38), naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael Sir Gaerfyrddin. Y canlyniad oedd y 14eg gorau yng Nghymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.6%.

**Data Cyrchfannau ar gyfer Disgyblion B11 Sir Gaerfyrddin (Blwyddyn Academaidd 2016-17)**




- 4.9% neu 33 allan o 673, o ddisgyblion **Blwyddyn 13** yn NEET, a dim ond 41 o ddisgyblion oedd naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael yr ardal. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniad yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffygion ysgolion o ran clustnodi'r bobl ifanc hyn yn dilyn canlyniadau Safon Uwch. Byddwn yn ceisio data ansoddol i wella'r sefyllfa hon.

## Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i gyflawni elfennau lleol prosiectau Cam Nesa a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ddarparu gwasanaethau cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Mae cyllid ar gyfer Cynnydd wedi cael ei gadarnhau tan 2022 ac rydym yn disgwyl cyhoeddiad ynghylch parhad cyllid Cam Nesa. Wrth chwilio am ddewisiadau eraill y tu hwnt i gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, rydym wedi defnyddio'r *Alternative Learning Company* i ddarparu ar gyfer 33 o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Mae'r fenter hon bellach yn cael ei gwerthuso.
- Rydym yn cydweithio â'r adran Adfywio a Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd i alinio'r llwybrau dysgu i'r Fargen Ddinas. Bydd y cwricwlwm lleol sydd i'w lansio cyn bo hir yn helpu i sefydlu'r llwybrau hyn.
- Rydym wedi parhau i drafod cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau yn y sir gyda Choleg Sir Gâr gan gynnwys cynnig galwedigaethol gwell i bobl ifanc yn ardal Llanelli.
- Rydym wedi cynyddu cyfranogiad gyda phobl ifanc, megis drwy eu cynnwys wrth recriwtio staff a chasglu eu barn a'u sylwadau i ddylanwadu ar gynllunio busnes a phennu blaenoriaethau yn ein Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid, er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc sy'n NEET. Fel Cyngor roeddem wedi cyflogi 15 o Brentisiaid yn 2017-19 a 18 o Raddedigion.
- Mae darparu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys adnabod pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio, broceru a chydlynu cymorth, olrhain a throsglwyddo pobl ifanc drwy'r system addysg, darpariaeth i ddiwallu anghenion a nodwyd a datblygu'r sgiliau cyflogadwyedd a'r cyfleoedd i gael cyflogaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy Wasanaeth Cymorth Ieuenctid y Cyngor Sir, ynghyd ag ysgolion, Coleg Sir Gâr, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau gwirfoddol a Gyrfa Cymru.






Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Byw'n Dda



# Byw'n Dda

Y ffordd rydym yn gweithio – ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.



## Pobl ifanc yn trawsnewid Cronlyn Caerfyrddin yn Ardd Tylwyth Teg

AMae grŵp o wirfoddolwyr ifanc wedi treulio'r pedwar mis diwethaf yn helpu i drawsnewid yr ardal o gwmpas y cronlyn yn Tanerdy, Caerfyrddin. Mae hyd at 20 o bobl ifanc wedi troi'r ardal yn Ardd Tylwyth Teg, yn enwedig ar gyfer plant bach yn y gymuned. Mae'r prosiect wedi'i drefnu gan ein Tîm Ôl-16 oed sy'n rhan o'n Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid. Yn y tymor hir, mae cynlluniau i ychwanegu at yr Ardd Tylwyth Teg yn ogystal â chreu bocsys adar, bocsys ystlumod, tai trychfilod a meinciau picnic. Bydd pawb sydd wedi cymryd rhan yn derbyn tystysgrif a fydd yn hwb i'w gobeithion o gael swyddi yn y tymor hir. Mae'r holl bobl ifanc wedi rhoi eu hamser o'u gwirfodd er mwyn bod yn ddinasyddion gweithgar, ac mae hyn wedi cael effaith enfawr ar eu hunan-barch, eu hunanhyder, ac o ran datblygu eu sgiliau - gan beri iddynt deimlo'n fwy o ran o'u cymuned.

*Gweler y llun dan Amcan Llesiant 4*

# Amcan Llesiant 5

## Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### 650 yn fwy o aelwydydd yn byw mewn tlodi (lan o 35% i 35.5%)

Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo *"incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain".* Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn llai na £18,868 y flwyddyn (h.y. 60% o £31,446).
Felly, gellir diffinio bod 35.5% yn byw mewn tlodi yn Sir Gaerfyrddin, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 33.6% ac wedi symud o'r 8fed safle i'r 13eg safle gwaethaf yng Nghymru.

**Ffigurau Incwm Aelwydydd** *Fynhonnell: CACI's 'PayCheck' data*

| | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | | 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru |
| **Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi** | 29,956 (37.1%) | 446,586 (33.6%) | 29,086 (36.3%) | 459,283 (35%) | 29,020 (35.9%) | 460,322 (34%) | 28,223 (35.0%) | 450,616 (33%) | 28,881 (35.5%) | 456,971 (33.6%) |

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau
- Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol
- Roedd dwy ward yn Sir Gaerfyrddin (Tyisha a Glanymôr) ymhlith yr 20 ward waethaf ar gyfer tlodi plant yng Nghymru (y ddwy yn 41.3%) *Ffynhonnell: End Child Poverty, Loughborough University, 2019 - comisiynwyd gan the End Child Poverty Network*

## Mesurau Llwyddiant

59.5% o aelwydydd wedi eu hatal rhag mynd yn ddigartref



*wedi dirywio o'r flwyddyn flaenorol (65.1%)*

13.5% o'r aelwydydd mewn amddifadedd materol



*Wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol (15.8%) 11eg uchaf yng Nghymru*

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Mae bwlch o 19.7% rhwng canlyniadau disgyblion sy'n cael Prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn eu cael



(bwlch o 19% yn ystod y flwyddyn flaenorol)

*Ffynhonnell: StatsCymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- O blith y 435 o aelwydydd yr oedd **digartrefedd yn fygythiad** iddynt yn ystod 2018/19, **llwyddwyd i atal 259 rhag mynd yn ddigartref – 59.5%.** Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn dechrau cael effaith, ac mae rhai landlordiaid preifat yn gyndyn o barhau gyda thenantiaid sy'n hawlio budd-daliadau. Hefyd mae tenantiaid o'r sector preifat yn tueddu i gysylltu â'r gwasanaeth pan maent ar fin cael eu troi allan yn hytrach na phan maent yn cael rhybudd, felly mae hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i ymgysylltu â'r landlord i atal neu liniaru'r sefyllfa.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, dynodwyd bod **13.5%** o'r aelwydydd oedd yn rhan o'r arolwg yn Sir Gaerfyrddin wedi'u categoreiddio'n rhai sy'n **byw mewn amddifadedd sylweddol**, ac mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 13.6% ac mae'n ostyngiad ers y flwyddyn ddiwethaf o 15.8%.
- Mae bwlch o **19.7%** rhwng y sgôr cyfartalog ar sail y 9 **canlyniad arholiad** gorau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cael **Prydau Ysgol am ddim** a'r **rheiny nad ydynt yn eu cael,** ac mae hyn wedi cynyddu ychydig o fwlch o 19% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dyma'r bwlch seithfed lleiaf yng Nghymru (6ed yn flaenorol). Fodd bynnag mae'r sgôr Prydau Ysgol Am Ddim wedi cynyddu o 307.6 i 308.1 (ond mae'r sgôr ar gyfer rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim hefyd wedi cynyddu mwy, o 360.8 i 375.5).

## Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu digartrefedd newydd a fydd yn rhoi mwy o ffocws ar atal a sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r angen i gysylltu â ni yn gynharach os ydynt yn wynebu problemau tai.
- Mae tîm sydd newydd gael ei ffurfio yn darparu pecyn o gyngor a chymorth i'r holl ddarpar denantiaid er mwyn trafod eu cyfrifoldebau fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: sut i dalu eu rhent a gwneud cais am fudd-dal. Cychwynnwyd sesiynau hyfforddi lle mae darpar denantiaid sydd ar ein Cofrestr Dewis Tai yn dilyn cwrs 1 diwrnod sy'n rhoi gwybodaeth am faterion tenantiaeth yn llawer mwy manwl.
- Ar ôl cael rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy,
  - cafodd 589 o oedolion gymorth cyflogadwyedd - 100% yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch chwilio am waith.
  - Cafodd 418 gymorth cynhwysiant digidol ac roedd 100% yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur.
  - 402 o bobl wedi ennill cymwysterau achrededig mewn cyrsiau cysylltiedig â chyflogaeth.
- Rydym bellach yn talu i'n staff swm sy'n cyfateb i gyflog byw y *Foundation Living Wage* (lefel cyflog byw wirfoddol). Mae hyn yn effeithio ar staff sydd ar y cyflogau isaf a fydd yn cael cyflog sy'n cyfateb i £8.75 yr awr (Ebrill 2018), sy'n uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol (gofyniad statudol) o £7.83 (Ebrill 2018).
- Mae'r Biwro Cymunedol wedi helpu grwpiau cymunedol, gwirfoddol ac elusennol a mentrau cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin i gael cymorth, cyngor a grantiau yn gyflym. Yn ystod y flwyddyn mae 5 menter wedi cael eu creu, mae 25 o swyddi wedi cael eu creu, mae 50 o swyddi wedi cael eu diogelu, ac mae 350 o unigolion wedi cael hyfforddiant/addysg ac rydym wedi helpu (gan weithio gyda CAVS) 450 o bobl i wirfoddoli.
- Rydym wedi bod yn ymgysylltu llawer yn ward Tyisha i wrando ar anghenion a phryderon ei thrigolion. Rydym yn y broses o weithredu prif gynllun uchelgeisiol a fydd yn rhoi sylw i anghenion yr ardal o ran y gymysgedd o dai, yr amgylchedd, a diogelwch a chyfleusterau cymunedol cyffredinol, yn ogystal â materion penodol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon a sbwriel.

### Cymeradwyo'r Hwb gwasanaethau cwsmeriaid yn Rhydaman!




**Gall pobl wneud taliadau, cael cymorth i gael swyddi a hyfforddiant, cyrchu cyfleusterau digidol, cael gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli a mwy**



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros Gymunedau a Materion Gwledig
**Y Cyng. Cefin Campbell**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 6
## Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

### Adfywio yw prif flaenoriaeth y Cyngor - yn ystod 2018/19 fe wnaethom greu 419 o swyddi

Crëwyd y swyddi hyn drwy:-

***Datblygu Busnes ac Ymgysylltu; Bwrsariaeth y Goleudy a Meithrin Busnesau; Cynlluniau Canol Tref Llanelli; Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r Biwro Cymunedol***

Hefyd drwy gynlluniau penodol Byd Gwaith, cafodd **951** o bobl gymorth i wirfoddoli a chafodd **137** o bobl gymorth i gael swyddi. Llwyddom i gael **£16.2m** o fuddsoddiad drwy'r sector preifat a thrwy gyllid allanol. Gwnaethom sicrhau **111** o swyddi mewn lleoliad newydd o ganlyniad i 5 prosiect Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.
- Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â bwlch Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) sy'n lledaenu rhwng GYG y DU a GYG Cymru; *GYG yw mesuriad o werth y cyflogau a'r elw o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn yr ardal.*

## Mesurau Llwyddiant

**Ffigur cyflogaeth yw 71.6%**
(Ebrill 18 hyd at Mawrth 19)
(73.7% o'r blaen)
15fed uchaf yng Nghymru
*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Poblogaeth Arolwg Blynyddol*

**38%**
Cymwysedig hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch
@ Rhagfyr 2018
(yn flaenorol 37.8% Rhagfyr 2017)
*Ffynhonnell: StatsCymru*

**82.5% yn fodlon â'u swyddi**
yn ystod 2017/18
11eg uchaf yng Nghymru
(arfer bod yn 18fed)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- **Y ffigurau cyflogaeth** yn Sir Gaerfyrddin ar ddiwedd mis Mawrth 2019 yw **71.6%**, ac mae hyn i lawr o 73.7% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn is bellach na chyfartaledd Cymru (73.1%) a chyfartaledd y DU (75.2%). Rydym hefyd wedi symud o'r 12fed safle yng Nghymru i'r 15fed safle. Mae'r ffigurau'n siomedig gan fod yr awdurdod wedi rhoi nifer o fentrau ariannu ar waith i ysgogi swyddi a thwf yn y sir ar ffurf y Gronfa Datblygu Eiddo, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a Grantiau Busnes.
- Mae **38%** o oedolion oedran gweithio sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin **wedi'u cymhwyso hyd at Lefel 4 NVQ neu uwch** yn 2018, ac mae hyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol sef 37.8% ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 37.8%. Ni yw'r 9fed uchaf yng Nghymru gan godi o'r 10fed safle y flwyddyn flaenorol.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru roedd **82.5%** o'r rhai gymerodd ran yn weddol fodlon neu'n hynod **fodlon ar eu swyddi,** ac mae hyn yn uwch na chanlyniad y flwyddyn flaenorol sef 80%. Rydym wedi esgyn o'r 18fed safle i'r 11eg safle yng Nghymru.
- Mae'r **Cyflog Wythnosol Gros Cyfartalog** wedi lleihau 1.2% (o £517.8 i £511.4) ac mae Sir Gaerfyrddin wedi mynd o'r cyflog pedwerydd uchaf yng Nghymru ar gyfer 2017 i'r 11eg uchaf yn 2018. Mae hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £518.6. Mae hyn yn adlewyrchu amodau'r farchnad fusnes yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n anodd esbonio'r lleihad gan nad oes unrhyw resymau o bwys yr ydym yn ymwybodol ohonynt sy'n effeithio ar gyflogau.

## Y cynnydd a wnaed

- Cyflawni'r cynllun prosiect ar gyfer **Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli**:-
  - Wedi parhau i ddatblygu'r manylion ar gyfer cam 1 ynghyd ag ynni a seilwaith. Mae'r gwaith wedi cwblhau bellach hyd at ddiwedd gofynion Cam 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ac mae tendr ar gyfer gwaith archwilio'r ddaear wedi cael ei gynnal.
  - Mae'r cais Cynllunio Amlinellol ar gyfer y Pentref Llesiant wedi cael ei gymeradwyo a chydymffurfiwyd â gofynion perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cafodd **Cronfa Fusnesau Sir Gaerfyrddin** ei lansio ym mis Gorffennaf 2018, i gefnogi sefydlu busnesau lleol. Mae wedi profi'n boblogaidd gyda'r gymuned fusnes.
- Mae datblygiad yn parhau ar gyfer nifer o fentrau a phrosiectau sy'n helpu i gyflawni a chefnogi cynllun **trawsnewidiol Caerfyrddin, Rhydaman a Gwledig,** er enghraifft:-
  - Bu i brosiect Yr Egin, a arweinir gan y trydydd parti, agor ei ddrysau'n llwyddiannus ddiwedd yr haf, sydd wedi hwyluso adleoli pencadlys S4C i Gaerfyrddin ynghyd â nifer o fusnesau cysylltiedig
  - Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn - mae'r gwaith wedi dechrau ar Brosiect Denu Pentywyn a fydd yn costio £7 miliwn ac yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2020. Bydd hyn yn cynnwys amgueddfa Traeth y Gwibwyr newydd, eco-hostel â 42 o welyau, llecyn arddangos allanol, llecyn digwyddiadau, llecyn chwaraeon traeth, maes chwarae antur, gerddi'r amgueddfa a chyfleusterau parcio gwell.
- Hyd yn hyn, o'r dyraniad cychwynnol o £2m o'r **Gronfa Mentrau Gwledig**, mae 16 o fusnesau wedi elwa ac mae pedwar ar ddeg o'r busnesau hynny bellach yn gweithredu yn eu safleoedd newydd neu safleoedd gwell. Mae hyn wedi arwain at fuddsoddiad mwy na £3m a chreu 64 o swyddi yn y Sir Gaerfyrddin wledig.
- Byddwn yn parhau i ddarparu Cynllun Rheoli Cyrchfannau **Twristiaeth** ar gyfer y Sir Gyfan 2015-2020 ac yn cefnogi hybu Sir Gaerfyrddin fel lle deniadol o safon i aros ac ymweld ag ef.
  - Cafodd 41 o erthyglau o bwys ar Sir Gaerfyrddin eu creu gan y Cygor yn y cyfryngau ac iddynt werth hysbysebu oedd yn cyfateb i £186,000
  - Mae ymgyrchoedd newydd lle mae pobl yn ymweld â mannau ffilmio'r gyfres 'Un Bore Mercher' a'r 'Llwybr Hen Bethau a Nwyddau Ail Law' ill dau wedi cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau.

**Set Ffilm – Sir Gaerfyrddin** *Country File* yn cael ei ffilmio yn Llansteffan





| Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddatblygu Economaidd<br>**Y Cynghorydd Emlyn Dole (Arweinydd y Cyngor)** | Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn. |
|---|---|

# Amcan Llesiant 7
## Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

**Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol rhwng 2016 a 2021**

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy.
Rydym wedi darparu *dros 650* o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant,* gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i *Bobl a'r Amgylchedd* - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr.  Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tlodi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Mae'n dda i'r *Economi* - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

## Mesur Llwyddiant

**+ 247**

Tai Fforddiadwy Ychwanegol
yn ystod 2018/19





## Egluro'r Canlyniadau



## Y cynnydd a wnaed

- Fel rhan o *Gynllun Tai Fforddiadwy 2016-2021* hyd yn hyn rydym wedi darparu **655** o dai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y canlynol:-

  **156:** *Asiantaeth Gosod Syml*
  *(**32**: 16/17; **63**: 17/18; **61**: 18/19)*

  **158:** *Ailddechrau defnyddio tai gwag*
  *(**28**: 16/17; **63**: 17/18; **67**: 18/19)*

  **195:** *Prynu tai'r sector preifat*
  *(**45**: 16/17; **69**: 17/18; **81**: 18/19)*

  **82:** *Datblygiad tai newydd Cymdeithas Tai* – *(**45**: 16/17; **20**: 17/18; **17**: 18/19)*

  **64:** *Cyfraniad gan ddatblygiad (adran 106)* *(**23**: 16/17; **20**: 17/18; **21**: 18/19)*




- Rydym wedi prynu **173** o dai sector preifat i gynyddu *stoc dai y Cyngor ei hun.* **22** o dai wedi eu prynu'n uniongyrchol gan Gymdeithas Tai Bro Myrddin.

- ran ein dau ddatblygiad adeiladau newydd cyntaf gan y Cyngor yn Dylan a Garreglwyd, mae gweithwyr ar y safle bellach yn codi 48 o dai newydd.

- Drwy'r system gynllunio (Adran 106) mae **64** o dai wedi'u darparu ar gyfer Perchentyaeth Cost Isel ac wedi'u henwebu i bobl leol yr oedd angen help arnynt i brynu eu tai eu hunain.

- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin eisoes yn gwneud cynnydd rhagorol ar ei addewidion i ddarparu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy erbyn 2021 ac mae rhagor o gynlluniau ar waith i adeiladu bron 1,000 o dai Cyngor ychwanegol.



**Dywedodd Mrs Evans"*mae'r tŷ yn berffaith ar gyfer ein hanghenion ac yn teimlo fel cartref ein teulu eisoes*", wedi iddynt symud i un o'n tai a brynwyd yn ddiweddar yn Nhirwaun, Porth Tywyn.**



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
**Y Cynghorydd Linda Evans**

Cliciwch yma i gael gweld **ein cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 8
## Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

**Bron 1.6 miliwn o ymweliadau â'n cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, gan greu adenillion gwerth cymdeithasol o £5.9 miliwn yn ystod 2018/19 -** Rydym am sicrhau:

- Taw Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf heini ac iach yn y Deyrnas Unedig
- Bod pob unigolyn yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan weithgar mewn *Clwb Cymunedol* neu *Gyfleuster Hamdden/Diwylliannol*
- Bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn dwlu ar weithgareddau Hamdden/Diwylliannol am oes.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Gan fod ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Gan mai'r her yw atal salwch.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Gan fod llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mesurau Llwyddiant



**66%** o oedolion yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**53%** o oedolion yn dweud bod ganddynt salwch hirdymor



*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Sgôr llesiant meddwl oedolion o **51**

(Allan o fwyafswm o 70)



*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**8.8%** o oedolion â **<2** o ymddygiadau ffordd o fyw iach



(Ychydig yn waeth na'r canlyniad blaenorol o 8.2%)

**9ed gorau** yng Nghymru

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru] yn dangos:-

- Dywedodd **60%** o gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin fod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn,** ac mae hwn yn ostyngiad bach ar y canlyniad blaenorol o 69% ond yn gymharol rydym wedi symud o'r 14eg safle i'r 21ain safle yng Nghymru. Er bod y canlyniad hwn yn siomedig, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Iechyd y Cyhoedd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo amgylchedd iach i drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymarfer corff, maeth ac aer glanach.
- Dywedodd **53%** o gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin fod ganddynt **salwch, anabledd, neu lesgedd hirdymor**, ac mae hwn yn gynnydd bach ar ganlyniad yr arolwg blaenorol sef 50% a'r canlyniad ail uchaf yng Nghymru. Er bod nifer o ddylanwadau ar y mesur hwn, rydym yn dal i weld cynnydd yn nifer y cynlluniau ac effaith y cynlluniau megis y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff gyda mwy na 1,200 o atgyfeiriadau yn y 12 mis diwethaf.
- Mae'r **sgôr llesiant meddwl** wedi'i seilio ar 14 o ddatganiadau wedi'u geirio mewn ffordd bositif a ofynnwyd fel rhan o arolwg sy'n cynrychioli rhinweddau cadarnhaol llesiant ac sy'n cwmpasu sut mae rhywun yn teimlo ac yn gweithredu, yn wahanol i salwch ac anhwylder meddwl ac mae'n addas i'w defnyddio yn y boblogaeth gyffredinol. Er bod gwelliant mae'n welliant bach iawn, o sgôr o 50 i 51.
- Mae gan **8.8%** o gyfranogwyr **lai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach, ac mae hyn wedi cynyddu ychydig ers y llynedd sef** 8.2%. Fodd bynnag mae'n dal i fod yn well na chyfartaledd Cymru o 10.1% ond rydym wedi symud i lawr o'r 5ed gorau i'r 9fed gorau yng Nghymru.

## Y cynnydd a wnaed

- Ym mis Medi 2018 bu Sir Gaerfyrddin yn gartref i gychwyn Taith OVO Energy Prydain. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Daith ddechrau yn Ne Cymru ac roedd Parc Gwledig Pen-bre yn lleoliad gwych i gychwyn y ras. Bu i Barc Gwledig Pen-bre a threfi a phentrefi ledled y sir groesawu 120 o feicwyr proffesiynol gorau'r byd yn yr hyn a ystyrir yn ras feicio broffesiynol fwyaf Prydain. Rhoddodd y Daith gyfle gwych i'r sir arddangos ei thirwedd unigryw a hardd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol gan i'r ras gael ei darlledu'n fyw i 125 o wledydd.  Cynhaliodd sawl cymuned ddiwrnodau llawn gweithgareddau hwyliog gyda lluniaeth, a rhoddwyd cyfleoedd i blant ac oedolion ddod at ei gilydd fel cymuned i helpu i ddathlu'r digwyddiad gwych hwn yn y sir. Rhan Cydweli o'r cymal: - [https://www.youtube.com/watch?v=ltm6aTl0Kd4](https://www.youtube.com/watch?v=ltm6aTl0Kd4)
- Rydym wedi parhau i fonitro *ansawdd aer* (nitrogen deuocsid) ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir gan weithredu rhaglen samplu.  Mae hyn yn cefnogi ymgynghoriad ar gyfer cynlluniau gweithredu yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin yn ogystal â'r cynlluniau gweithredu presennol ar gyfer Llandeilo. Mae'r data wedi'i gipio o bob safle ac mae canlyniadau'n cael eu hasesu a'u riportio.
- Yn dilyn buddsoddiad o £1m yn 2016/17 i wella'r cyfleusterau ffitrwydd yn ein canolfannau hamdden, creu mwy o le a chyflwyno offer ffitrwydd newydd sbon o'r radd flaenaf, mae nifer yr ymweliadau wedi cynyddu 23% (o bron 1.3 miliwn cyn y buddsoddiad, i bron 1.6 miliwn yn 2018/19). Hefyd mae hyn wedi arwain at gynnydd yn yr incwm ffitrwydd o 33%/£320k (o 975k cyn hynny i bron £1.3 miliwn yn 2018/19).
- Atgyfeiriwyd 1,446 o bobl at y *Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff* yn ystod 2018/19, gyda 58.7% ohonynt yn ymgysylltu â'r cynllun, sef cynnydd ar 53.8% yn 2017/18. Dros 55% wedi cwblhau'r rhaglen 16 wythnos, gan ragori tipyn ar y targed o 50%.
- Bu ein timau iechyd meddwl, ein cydweithwyr hamdden a Rhedeg Cymru yn cydweithio i roi prosiect ar brawf a oedd yn hyfforddi grŵp o unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl o Lanelli i gystadlu yn hanner marathon Abertawe a hefyd mewn 'park runs' lleol. Roedd y prosiect arloesol hwn yn gyfrifol am godi sgôr llesiant y cyfranogwyr o 36 i 51 (cynnydd o 41%). Ers hynny, mae'r cydweithio llwyddiannus hwn wedi'i ymestyn i gynnwys yr Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel a chyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon ychwanegol, gan ddenu £22k i gynnig rhaglen i ardaloedd Rhydaman a Chaerfyrddin yn 2019/20.
- Mae gan Barc Gwledig Pen-bre gynllun llogi beiciau hollgynhwysol newydd, sef 'Beicio i Bawb'.  Mae 38 o feiciau newydd sy'n amrywio o feiciau hybrid, cludwyr cadeiriau olwyn, beiciau dwbl, beiciau tair olwyn maint oedolion a phlant, beiciau 4 sedd i'r teulu a beiciau gogwyddol.



**Cyfranogwyr yn y prosiect 'Beicio i Bawb/Cycle for All' yn mwynhau ac elwa ar feicio ym Mhen-bre**



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

Cliciwch **[yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#)** o ran yr amcan hwn.

# Heneiddio'n Dda



# Heneiddio'n Dda

*Y ffordd rydym yn gweithio – ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.*




## Carmarthenshire is Kind

Cam tuag at newid yw *Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig*, sy'n ceisio meithrin dealltwriaeth o effaith caredigrwydd a gweithredu'n gadarnhaol nid yn unig arnom ni fel unigolion, ond ar gymunedau cyfan.

Rydym am greu Cymunedau Caredig sydd yn garedig ac yn groesawgar i bawb, yn ogystal â bod yn fwy cefnogol i bobl hŷn, pobl anabl, a phobl â dementia.

Cychwynnwyd ar y prosiect mewn digwyddiad cymunedol ar gyfer pobl hŷn a gynhaliwyd yn 2017 ar ddiwrnod Caredigrwydd Cenedlaethol, lle roedd mwy na 500 yn bresennol. Rhoddwyd sylw i'r peth ar BBC Radio Wales.

Mae'r prosiect wedi ei nodi fel arfer da gan yr Ymgyrch i Atal Unigrwydd a chafodd ei amlygu mewn cynhadledd genedlaethol.

Mae datblygu mentrau ataliol/cydweithredol megis 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' a 'Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia' hefyd yn dechrau gwneud gwahaniaeth gan fod llawer o'n cymunedau yn manteisio ar y mentrau hyn i wneud eu cymuned yn fwy cydnerth. Yn y modd hwn, caiff yr ymdrechion a wnawn fel Cyngor eu helaethu wrth i ni gefnogi a helpu cymunedau ac unigolion i gyfrannu a bod yn fwyfwy cynaliadwy, bywiog a gofalfar.

## Amcan Llesiant 9
## Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Canlyniadau arolwg Ymdeimlad o Gymuned wedi cynyddu yn Sir Gaerfyrddin *o 47.7% i 51.6%*

Mae'r **'Ymdeimlad o Gymuned'** yn deillio o dri chwestiwn; *Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.*




Er gwaethaf gwell canlyniad, rydym yn disgyn o'r 13eg safle i'r 14eg safle yng Nghymru.

### Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn cynyddu'r risg o ddirywio'n wybyddol, gydag un astudiaeth yn dod i'r casgliad bod pobl unig 64% yn fwy tebygol o ddatblygu dementia clinigol.
- Mae unigrwydd ymhlith pobl ifanc yn cynyddu'r tebygolrwydd o iechyd corfforol a meddyliol gwael, o droseddu, ac o gael llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- Yn ogystal â chael effaith ar leihau'r risg o farwolaeth gynnar a salwch, mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.

### Mesur Llwyddiant



**76.1%** o bobl yn teimlo'n ddiogel

7fed uchaf yng Nghymru

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*



### Egluro'r Canlyniadau

- Mae canran cyfranogwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru **sy'n teimlo'n ddiogel** wedi gostwng o **78.7%** i **76.1%** ond yn dal i fod yn 7fed safle. Deilliodd y canlyniad hwn o bedwar cwestiwn; pobl yn teimlo'n ddiogel gartref, cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio yn y tywyllwch a fydd ar gael maes o law.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019, roedd **51.6%** o'r cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt **'Ymdeimlad o Gymuned'**, ac mae hwn yn welliant o 47.7% y flwyddyn flaenorol. Roedd y canlyniad hwn yn deillio o dri chwestiwn; Pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'. Mae'r manylion ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn ar lefel Awdurdod Leol heb gael eu cyhoeddi hyd yn hyn. Er gwaethaf gwell canlyniad, rydym wedi symud o'r 13eg safle i'r 14eg safle yng Nghymru.

## Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella sut mae Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, megis gwefan newydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwasanaeth Cyfeirlyfr Gwasanaethau Dewis sy'n dal i gael ei hyrwyddo.
- Rydym wedi cefnogi egwyddorion Cynlluniau Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol:-
  - Helpu Rhwydwaith Tenantiaid Llanelli i drefnu digwyddiad amlddiwylliannol
  - Helpu mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lletyol yn ystod y broses integreiddio
  - Helpu cymunedau i atal gelyniaeth ac eithafiaeth
- Datblygwyd rhagor ar drefniadau diogelu yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod trafodaethau ystyrlon gydag oedolion sydd mewn perygl yn digwydd mor gynnar â phosibl ac yn parhau hyd nes y ceir y canlyniadau priodol.
- Er mwyn cefnogi Strategaeth Troseddau Gwledig yr Heddlu, cafodd Bwrdd Troseddau Gwledig newydd ei ffurfio a oedd yn annog gwell rhannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth rhwng cymunedau a phartneriaid gwledig.
- Cafodd menter newydd "Gofyn am Angela" ei lansio mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r adran drwyddedu, sy'n galluogi cwsmeriaid mewn safleoedd trwyddedig a allai fod yn teimlo dan fygythiad neu'n anniogel ar noson allan, i gael cymorth drwy fynd at y bar a "Gofyn am Angela".
- Rydym yn dal i gyllido ein prosiectau Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol drwy atafaelu enillion troseddau yn dilyn gweithgarwch gorfodi. Mae'r arian hwn wedi cyllido Parthau Dim Galw Heb Wahoddiad newydd, gosod unedau *True Call* i ddefnyddwyr agored i niwed a lansio cynllun Masnachwyr Cymeradwy Prynu â Hyder, gan sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.



***Mae prosiect y Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol yn helpu i ad-dalu rhai o'r colledion mae defnyddwyr yn eu gwneud***



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelwch Cymunedol
**Y Cyng. Cefin Campbell**

Cliciwch yma i gael gweld ein **cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 10

## Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

Ein Cynnig i'r Boblogaeth - *'Cymorth i Helpu eich Hun'* (Atal salwch neu anaf)
Hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.

### Pam y mae hyn yn bwysig

- Gan fod ymgyngoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
- Gan fod y boblogaeth sy'n fregus yn cynyddu a bydd angen cymorth arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Gan ei bod yn hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.

### Mesurau Llwyddiant

**81** o bobl wedi'u cadw yn yr ysbyty tra'n aros i gael gofal cymdeithasol
(**4.21** fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed)

(47 o bobl o'r blaen - 2.50 fesul 1,000 o'r boblogaeth)

**47.5%**
Cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal
(56.2% o'r blaen)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Ar gyfartaledd mae'n cymryd **157** o ddiwrnodau calendr i gyflawni *Grant Cyfleusterau i'r Anabl*

### Egluro'r Canlyniadau

- 81 o gleientiaid (75+ oed) wedi eu **cadw yn yr ysbyty** yn ystod 2018/19 tra'n aros i gael gofal cymdeithasol, sef cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol o 47. Rydym wedi bod yn datblygu gwasanaethau newydd i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac i sicrhau bod ein dinasyddion yn cael y gofal iawn ar yr amser iawn. Ynghyd â'n gwasanaeth ailalluogi dan arweiniad therapi, rydym wedi datblygu Gwasanaeth Asesu Deilliannau sy'n sicrhau bod pawb sydd angen gofal a ddarperir yn statudol yn cael cyfle i gael eu hasesu ymhellach yn eu cartref er mwyn hyrwyddo annibyniaeth. Gan fod cynnydd yn nifer y bobl sydd â chydafiachedd, sydd yn ei dro'n arwain at anghenion cymhleth a lefelau uwch o ofal, rydym yn monitro ac yn adolygu ein gwasanaethau'n gyson er mwyn ateb y galw cynyddol hwn.

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 roedd **47.5%** o'r cyfranogwyr yn credu bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal.** Er ei bod yn siomedig ac yn aneglur ynghylch yr ymatebwyr, mae'r adran yn credu ei bod yn darparu gwasanaeth o safon i'w defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr ac mae ganddi dystiolaeth i ddangos hyn. Mae'r adran wedi derbyn Adroddiad da iawn yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2019 (cyhoeddwyd 7 Awst 2019) a oedd yn gwirio bod pobl yn gallu bod yn hyderus yn safon y gofal a'r gefnogaeth a roir. At hynny, fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, cafodd yr adran gyfradd ymateb ardderchog o 604 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i'r arolwg, a oedd yn dangos bod pobl yn fodlon iawn ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sir: Er enghraifft, dywedodd 85% o bobl eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael; dywedodd 81% o blant eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a'u cymorth; dywedodd 83% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag niwed neu anaf; dywedodd 93% eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas.

- Mae nifer cyfartalog y dyddiau a gymerir i gyflawni addasiad **Grant Cyfleusterau i'r Anabl** yn dal i leihau sef 57 o ddiwrnodau, ac mae hyn bron hanner y diwrnodau a gymerwyd yn 2013/14 sef 308 o ddiwrnodau, pan oeddem yn yr 20fed safle yng Nghymru, ac rydym yn y 3ydd safle ar hyn o bryd.

## Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi datblygu **cynllun presgripsiynau cymdeithasol** arloesol mewn partneriaeth â Meddygon Teulu lle mae credydau amser yn cael eu rhagnodi i gleifion fel y gallant fynd i ddigwyddiadau a sesiynau grwpiau cymunedol. Mae Credydau Amser yn gweithio yn syml iawn: am bob awr y mae unigolyn yn cyfrannu at ei gymuned neu wasanaeth, mae'n ennill un Credyd Amser. Gellir gwario'r Credydau Amser hyn yn gwneud awr o weithgarwch a ddarperir gan leoliadau iechyd a llesiant fel canolfannau hamdden, campfeydd, ioga, theatrau, grwpiau crefft a grwpiau cerdded. Y llynedd, ledled y sir roedd gan Fanc Amser Sir Gaerfyrddin 1,941 o aelodau.
- Yn ôl arolwg Gofal Cymdeithasol 2018/19 roedd **84.6%** yn fodlon ar y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael.
- Mae'r gwaith ataliol yn Sir Gaerfyrddin, wedi'i seilio ar strategaeth PEIPIL *(Prevention, Early Intervention and Promoting Independent Living),* wedi'i glustnodi'n arfer da yng Nghymru drwy Gynllun Enghreifftiol Bevan.
- Rydym wedi llwyddo i roi **Prosiect Cymorth Unedig Sir Gaerfyrddin** ar waith yn llwyddiannus ac wedi cael ein nodi fel Menter Enghreifftiol yng Nghymru drwy Gomisiwn Bevan. Cynllun gan y trydydd sector yw hwn sy'n helpu pobl yn y gymuned i aros yn annibynnol am cyn hired â phosibl.
- Mae'r *Gwasanaeth Cynghori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal* (TOCALS) wedi ehangu yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty'r Tywysog Phillip i gynnwys Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys a Ffisiotherapyddion sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n brydlon o ysbytai.
- Mae *Bywydau Bodlon* yn wasanaeth tymor hir sy'n cefnogi pobl sy'n byw â dementia, mae'n rhoi gweithiwr allweddol i unigolion sy'n helpu pobl i fyw eu bywyd mor llawn â phosibl wrth i'w dementia ddatblygu. Mae'r pwyslais ar gael yr unigolyn i gyfeirio'r cymorth sydd ei angen arno er mwyn bod mor annibynnol â phosibl.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd
**Y Cynghorydd Jane Tremlett**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 11
## Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

**60% yn cytuno eu bod yn byw mewn cymuned oed gyfeillgar**

Fodd bynnag, mae ein Harolwg Fforwm 50+ yn dangos cwymp o 5%, sef o 65% i 60% ar gyfer y llynedd.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae heneiddio'n dda – 'ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid blynyddoedd yn unig i fywyd' – yn bwysig i bob un ohonom, ac i'n gwlad yn gyffredinol. Dylai pobl hŷn gael eu gweld fel rhan hanfodol o'r gymdeithas a dylent gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn ein heconomi a'n cymunedau a chyfrannu atynt. Mae pobl hŷn yn ased sylweddol i'n cymuned a'n heconomi.

- Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.

## Mesur Llwyddiant

**16.6%** o bobl yn unig

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*
*Roedd yn arfer bod yn 17.1%*





## Egluro'r Canlyniadau

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, roedd **16.6%** o'r oedolion gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **ystyried eu bod yn unig,** ac mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 16.3% ond mae wedi gostwng ers canlyniad y flwyddyn flaenorol o 17.1% ac rydym dal yn y 10fed safle.
Yn ein Harolwg Fforwm 50+, roedd 70% o'r ymatebwyr yn teimlo ein bod yn gwneud gwaith sylweddol i fynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd a gwnaethant rai awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

## Cynnydd a Wnaed - gwneud cynnydd o ran 5 nod y Cynllun Heneiddio'n Dda lleol a chenedlaethol

1. **CYMUNEDAU OED GYFEILLGAR**
   - Mae ein cysylltiadau â'r Fforwm 50+ wedi cael eu cryfhau yn ystod y flwyddyn ac mae e-bost yn cael ei anfon bob deufis at holl aelodau'r Fforwm 50+ bellach drwy Dotmailer. Mae'r e-bost wedi cael ymateb cadarnhaol gan y sawl sydd wedi'i dderbyn.
   - Mae Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin bellach wedi sefydlu ei grŵp cyfathrebu ei hun mewn ymateb i arolwg Fforwm 50+ y llynedd, lle nad oedd pobl hŷn yn teimlo bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu am y gwasanaethau sydd ar gael, y digwyddiadau a'r wybodaeth bwysig sy'n effeithio arnynt.

2. **CYMUNEDAU SY'N CEFNOGI POBL Â DEMENTIA**
   - Dangosodd ein Harolwg 50+, a gynhaliwyd yn ystod 2018, gynnydd bach iawn yn y cytundeb sydd gennym â Chymunedau sy'n Cefnogi Dementia
   - Ym mis Mehefin 2018 penderfynodd y Cyngor ar Hysbysiad o Gynnig i ymchwilio i ymarferoldeb gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia.
   - Bellach mae gennym fwy na 6,000 (4,847 yn 17/18) o gyfeillion dementia ar draws y sir.

Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative

### 3. Atal Codymau

- Mae cynnydd ardderchog wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddarparu hyfforddiant i staff drwy'r fenter 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif'. Mae'r fenter yn cydnabod bod staff ar draws y sector iechyd, y sector gwirfoddol, ac awdurdodau lleol, yn gwneud miloedd o gysylltiadau bob dydd, a bod staff yn cael hyfforddiant i roi iddynt y gallu a'r hyder i gyfleu negeseuon ffordd iach o fyw ac i helpu i annog pobl i newid eu hymddygiad a'u cyfeirio at ragor o gymorth.

### 4. Cyfleoedd i Gael Gwaith a Sgiliau Newydd

- Mae gwybodaeth am argaeledd gwahanol adnoddau hyfforddiant Digidol i gleientiaid hŷn wedi ei chrynhoi ac mae'r manylion cyswllt wedi'u dosbarthu trwy sefydliadau partner. Digwyddiadau hyrwyddo ar gyfer 50+ wedi eu cynnal yng Nghaerfyrddin, Pontyberem, Rhydaman a Llanelli.

### 5. Unigrwydd ac Arwahanrwydd

- Hefyd bu inni drefnu'r digwyddiad blynyddol 50+ a gynhaliwyd yn yr Ardd Fotaneg gyda 600+ yn bresennol. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig a oedd yn rhoi negeseuon allweddol a thystiolaeth am effeithiau cadarnhaol caredigrwydd ar iechyd a llesiant.

## Cryfhau cymunedau lleol a lleddfu'r pwysau sydd ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Unwaith eto, dyma enghraifft o sut y mae pobl hŷn yn ased sylweddol i Sir Gaerfyrddin**



**Pensiynwr o Lanelli wedi derbyn anrhydedd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig - cafodd William Henry Gerwyn Jenkins ei gydnabod yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei wasanaethau i'r Samariaid**




Aelodau'r Bwrdd Gweithredol dros Dai: **Y Cynghorydd Linda Evans** a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd: **Y Cynghorydd Jane Tremlett**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

*Y ffordd rydym yn gweithio – ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.*



### *Gwaith ar y gweill i gwblhau 'darn coll' y llwybr beicio*

Gwaith ar y gweill i gwblhau'r 'darn coll' ar lwybr beicio a cherdded yn ardaloedd Llangennech a Dafen yn Llanelli.

Nod y cynllun yw annog teithio cynaliadwy nawr ac yn y tymor hirach, er mwyn gwella diogelwch ffyrdd ac atal damweiniau yn yr ardal, cysylltu cymunedau fel y gellir cyrraedd ysgolion a siopau'n hwylus, a safleoedd cyflogaeth yn cynnwys y rheiny ym Mharc Busnes Porth Llanelli ac Ystâd Ddiwydiannol Dafen, yn ogystal â Gestamp a Calsonic Kansei, sef dau o gyflogwyr mwyaf y dref.

Mae hefyd yn rhan o'r cynllun yn y tymor hirach i greu rhwydwaith teithio llesol di-draffig, integredig drwy gydol y dref, gan wella iechyd a llesiant trigolion, fel rhan o ymrwymiad y Cyngor dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru). Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi dyheadau Sir Gaerfyrddin i fod yn un o brif gyrchfannau cerdded a beicio Cymru.

# Amcan Llesiant 12
## Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

**Rydym yn gwella ein hamgylchedd drwy wella bioamrywiaeth a defnyddio ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau**

Rydym wedi cyflawni prosiectau cynaliadwy sy'n diogelu ein hamgylchedd ac yn ei wella. Mae'r cynefin a reolir ar gyfer britheg y gors a 300 hectar o warchodfeydd natur lleol ill dau yn brosiectau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae technoleg ynni adnewyddadwy yn cael ei defnyddio mwyfwy yn ein hadeiladau ac mae'n rhan annatod o'n holl adeiladau newydd, wrth i'r Awdurdod anelu at fod yn 'Garbon Niwtral' erbyn 2030. Mae ein Cynllun Rheoli Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Traethlin yn caniatáu i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy wneud Cymru'n fwy *cydnerth,* ac, yn sgil hynny, yn fwy *llewyrchus.* Fodd bynnag mae cyrraedd targedau ailgylchu wedi bod yn hynod heriol eleni.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Roedd yr arolwg Asesiad Anghenion Llesiant wedi clustnodi perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

## Mesurau Llwyddiant





Cynhyrchwyd **979,071 kWh** o ynni adnewyddadwy gennym yn ystod 2018/19 (wedi cynyddu o 937,330 kWh y flwyddyn flaenorol)



Ein cyfradd ailgylchu yw

**58.95%**

(Mae hyn yn llai na ffigur y flwyddyn flaenorol o 63.64%, ond rydym yn parhau i gyrraedd ein targed)



## Egluro'r Canlyniadau

- **Ynni adnewyddadwy** – Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein systemau solar ffotofoltäig ar ein hadeiladau annomestig â chyfanswm capasiti gosodedig o 1.15 MWp. Mae hyn wedi creu dros 979,071 kWh (dros dro) o Drydan yn ystod 2018/19, sef cynnydd o 4.5% ar y flwyddyn flaenorol pan oedd y ffigwr yn 937,330 kWh.
- **Ailgylchu** wedi gostwng yn 2018/19 i 58.95% o 63.64% y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad yn bennaf o achos anawsterau â marchnadoedd allforio ar gyfer gwastraff gweddilliol (allfeydd tanwydd sy'n deillio o sbwriel). Fodd bynnag, rydym wedi cyrraedd y targed statudol o 58%.

## Y cynnydd a wnaed

- Mae'r prosiect yn parhau i reoli 24 o safleoedd sy'n darparu 40.46 hectar o gynefin sydd mewn cyflwr addas ar gyfer britheg y gors. Dengys canlyniadau arolygon yn haf 2018 fod nifer y gweoedd larfa a gofnodwyd yn eithriadol o uchel eleni a bod 86 o weoedd wedi'u cofnodi ar un safle. Canfu arolygon cynefinoedd gofnodion newydd o fritheg y gors mewn 31 o gaeau, ar draws yr ardal, gan ehangu ein gwybodaeth am y glöyn byw yn y rhan hon o'r sir, a bydd y gwaith hwn yn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r adolygiad o Ganllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr. Mae'r prosiect yn parhau i sicrhau bod y tir yn cael ei bori'n briodol mewn cytundebau rheoli, gan gynorthwyo tirfeddianwyr yn aml i ddod o hyd i anifeiliaid pori addas. Mae hefyd wedi bod yn gwneud defnydd o gynllun grantiau bach Glas Tir, lle bo'n bosibl, ar gyfer rheoli perthi.
- Mae gan y Cyngor raglen adeiladu newydd helaeth. Mae pob prosiect adeiladu mawr newydd yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol, gyda gosodiadau solar ffotofoltäig yn rhan o lawer o brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif y Ddarpariaeth Moderneiddio Addysg yn ddiweddar.
- Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r holl brosiectau annomestig sy'n derbyn elfen o gyllid Llywodraeth Cymru gyrraedd safon 'Rhagorol' o ran BREEAM (dull asesu amgylcheddol y sefydliad ymchwil adeiladu), y mae rhan ohoni'n gysylltiedig â dylunio adeiladau i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon.
- Rydym wedi cwblhau ein Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i ddiogelu cartrefi ac eiddo yng Nghymru.

Derbyniodd **Prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr** wobr yn y categori *'Cynllunio yn yr Amgylchedd Naturiol'* yng Ngwobrau Cenedlaethol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) ar gyfer Rhagoriaeth mewn Cynllunio.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd:
**Y Cynghorydd Philip Hughes**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 13
## Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

**Rydym yn gwella seilwaith ffyrdd y sir, trafnidiaeth wledig a thrafnidiaeth gynaliadwy**

Mae ein gwasanaethau cysylltiedig â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel,
gan alluogi mynediad i nwyddau craidd a marchnadoedd yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad i gyflogaeth, addysg, iechyd a gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Rydym wedi parhau i ddatblygu Teithio Llesol drwy fuddsoddi mewn llwybrau a rennir a llwybrau beicio, gwella'r seilwaith ffyrdd i hybu gweithgarwch economaidd yn y sir, a chynnal gwasanaeth bysiau gwledig drwy ein gwasanaeth Bwcabus a cheir cefn gwlad.

## Pabwysig

- Mae gan *drafnidiaeth a phriffyrdd* rôl allweddol o ran cynnal ein cymunedau. Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau'n ddiogel ac yn effeithlon; rhoi cyfleoedd i bobl gael mynediad i waith ac addysg ac i wasanaethau iechyd, hamdden, cymdeithasol ac adwerthu.
- *Bod yn unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun *'Symud Cymru Ymlaen'.* Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Bydd cynnal mynediad at wasanaethau drwy gynlluniau Teithio Llesol yn rhoi bod i welliannau mewn iechyd a llesiant ar gyfer pob rhan o'r gymuned e.e. sy'n cynnwys: cerdded, beicio, trafnidiaeth teithwyr a ffyrdd.
- Gan y bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

## Mesurau Llwyddiant

**Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael:**



**5.2%** o'n rhai Dosbarth **A**
(Gostyngiad ar 4.1% yn 17/18)
(Disgyn o'r $15^{fed}$ safle i'r $21^{ain}$ yng Nghymru)

**4.2%** o'n rhai Dosbarth **B**
(Gostyngiad ar 3.1% yn 17/18)
(Disgyn o'r $5^{ed}$ safle i'r $10^{fed}$ yng Nghymru)

**12.5%** o'n rhai Dosbarth **C**
(Gostyngiad ar 11.9% yn 17/18)
(Yn dal i fod yn yr $17^{eg}$ safle yng Nghymru)

Mae nifer yr anafusion ar ein ffyrdd wedi cynyddu a chafodd **97** o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd



(*83 yn 2017*)
($20^{fed}$ uchaf yng Nghymru)
*Ffynhonnell: StatsCymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- **Mae cyflwr y ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin wedi dirywio yn ystod 2018/19**.
Mae gan Sir Gaerfyrddin y rhwydwaith priffyrdd ail fwyaf yng Nghymru. Mae % y ffyrdd dosbarth A, B, ac C yn Sir Gaerfyrddin sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) wedi cynyddu; gyda ffyrdd dosbarth A yn cynyddu o 4.1% i 5.2%, ffyrdd B o 3.1% i 4.2% a ffyrdd C o 11.9% i 12.5%. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cyfateb i ryw 180km o ffyrdd, ac mae hyn yn rhan sylweddol o'r rhwydwaith. Nid yw'r lefelau buddsoddi presennol yn ddigon i ddal lan â'r dirywiad. Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer Adnewyddu Ffyrdd a ddarparwyd yn 2018/19 a 2019/20 wedi cynnwys adrannau â blaenoriaeth ar ein ffyrdd dosbarth 'A' a bydd hyn yn helpu i arafu'r dirywiad yn y rhwydwaith.
- Cafodd **97 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol** ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2018. Er na allwn reoli nifer y digwyddiadau traffig ffordd ar rwydwaith ffyrdd y sir, rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner i annog pobl i ddefnyddio'r ffordd yn fwy diogel, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, gyrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianneg diogelwch ar y ffordd a dargedir, helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau cyflymder, a mynd i'r afael â phryderon y gymuned ynghylch goryrru.

## Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi cwblhau dau o'n tri chyswllt seilwaith trafnidiaeth strategol yng Ngorllewin Caerfyrddin a Rhydaman
- Roeddem wedi parhau i adeiladu *Llwybr Beicio Dyffryn Tywi* ac rydym yn parhau i ddatblygu'r cynllun llawn. Rydym wedi adeiladu tua 3.94 cilometr o lwybrau beicio / defnydd a rennir y flwyddyn hon ledled y sir i gynnal teithio cynaliadwy a llesol.
- Rydym wedi parhau â'n buddsoddiad mewn *cerbydau newydd* yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol.
- Rydym wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i osod unedau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan sydd bellach yn cael eu defnyddio.

# Agor Gorllewin Caerfyrddin






Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd:
**Y Cynghorydd Hazel Evans**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 14
## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

### Dal i wneud cynnydd da o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae ein hymgyrch i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg wedi cael sylw fel *arfer llwyddiannus* gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddwn yn datblygu prosiect digidol *'Stordy Digidol'* i ehangu mynediad i wasanaethau diwylliannol a chasgliadau ein sir. Mae seilwaith y wefan wedi ei gwblhau bellach ac mae'r llyfrgell yn cynnwys rhyw 770 o ddelweddau.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel elfen allweddol wrth ddatblygu natur unigryw ac atyniadol yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi mewn busnes a mynd i'r afael â thlodi gwledig.
- Bydd y penderfyniad gan S4C i adleoli i Gaerfyrddin yn golygu bod y sir yn un arwyddocaol i sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru. Bydd 'Yr Egin', sef canolfan newydd ar gyfer y cyfryngau a diwylliant ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn cael ei datblygu ac S4C fydd prif denant y safle. Bydd Yr Egin hefyd yn rhagori wrth hyrwyddo Caerfyrddin fel porth i'r 'Fro Gymraeg'.
- Mae gennym hanes da o gefnogi'r celfyddydau, ac rydym wedi bod ar flaen y gad fel un o'r awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo fwyaf i'r celfyddydau yng Nghymru, wrth i ni barhau i werthfawrogi a buddsoddi yn y celfyddydau er gwaethaf her cyni cyllidol a thoriadau mewn arian cyhoeddus.

## Mesurau Llwyddiant

**37.8%** o'n pobl yn gallu siarad Cymraeg
(I lawr o'r canlyniad blaenorol o 43.6%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (maint sampl 600)*

**53.5%** o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi derbyn asesiad athro yn y Gymraeg
(I lawr o'r canlyniad blaenorol o 55%)
*Ffynhonnell: StatsCymru*

% y bobl wnaeth ymweld: Digwyddiadau'r Celfyddydau/Lleoedd Hanesyddol/Amgueddfeydd

| 67.4% | 64.7% | 34.6% |
|---|---|---|
| I lawr o'r flwyddyn flaenorol sef 69.3% | I fyny o'r flwyddyn flaenorol sef 63.8% | I lawr o'r flwyddyn flaenorol sef 36% |

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, dywedodd **37.8%** o'r rhai a gymerodd ran eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn i lawr ar 2017/18 (43.6%) ond gennym ni y mae'r ganran 4edd uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi syniad da i ni bob blwyddyn am nifer y siaradwyr Cymraeg ond er bod y wybodaeth braidd yn hen bellach, mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigwr cywirach i ni o 43.9%, gyda'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef ychydig dros 78,000.
- Rhaid i bob dysgwr yn ei flwyddyn olaf yn y Cyfnod Sylfaen gael ei asesu drwy asesiadau athro. Cafodd 53.5% o'n disgyblion Cyfnod Sylfaen asesiad athro yn y Gymraeg, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru roedd nifer y cyfranogwyr at yr arolwg wnaeth fynychu digwyddiad ym myd y celfyddydau ac ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod 2017/18 wedi gostwng ychydig sef 67.4% a 34.6%, ac mae'r rhain yn is na ffigurau cyfartalog Cymru o 68% a 40.4%. Roedd y nifer oedd wedi ymweld â safleoedd treftadaeth wedi cynyddu ychydig i 64.7%, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 63.4%. Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y safleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.

## Y cynnydd a wnaed

- Mae gan ein camau i hyrwyddo'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg gysylltiad agos â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a phrosiectau megis Cymraeg i Blant, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi paratoi adnoddau i egluro manteision addysg ddwyieithog a byddwn yn parhau i gefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg ledled y sir.
- Ym mis Gorffennaf 2018 cyhoeddwyd **Strategaeth Gelfyddydau Sir Gaerfyrddin** gennym sy'n pennu 4 Blaenoriaeth Strategol ac iddynt gynlluniau gweithredu manwl a Cherrig Milltir allweddol i'w chefnogi.
- Mae Theatrau Sir Gâr wedi gweld cynnydd o 39% mewn gwerthiant tocynnau a chynnydd o 42% mewn incwm yn ystod 2018/19.
- Fe'n gwahoddwyd i gefnogi Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu menter strategol newydd i fynd i'r afael â'r diffyg datblygu theatr Gymraeg, ac i roi sylw i'r diffyg cysylltiad rhwng y gwaith Cymraeg sydd wedi cael ei greu a beth mae cynulleidfaoedd am ei weld.
- I wella Cymraeg y staff, yn ystod 2018/19 bu i 223 o staff ddilyn cyrsiau hyfforddiant, a bu i 91 gwblhau cyrsiau e-ddysgu. Yn yr Archwiliad Sgiliau Iaith Blynyddol, gwelwyd gwelliant ar bob lefel - e.e. roedd nifer y staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg llafar wedi gostwng o 15% i 11%. Gweler Adroddiad yr iaith Gymraeg - (dolen gyswllt i'w hychwanegu)

## Cynyddu HYDER ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg



**Aeth aelodau o'r staff ar gwrs preswyl yr iaith Gymraeg i helpu i wella eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros y Gymraeg, Diwylliant a Thwristiaeth:
**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

Cliciwch yma i gael gweld ein **cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.

# Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau



# Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau

*Y ffordd rydym yn gweithio – ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.*

## Hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ein sir

Ar y cyd â'n partneriaid, rydym wedi cyhoeddi pecyn gwybodaeth i bobl sy'n symud i'r sir. Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am yr iaith Gymraeg, gwybodaeth am ddysgu Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg, a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mywyd y gymuned a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n cynnwys delweddau o Sir Gâr a ffeithiau diddorol am y Gymraeg yn y sir.

Rhoddwyd cynllun dosbarthu integredig ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio cyrraedd pobl sydd wedi symud i'r sir drwy amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, trefnwyd bod copi yn cael ei anfon wrth i drigolion gofrestru i bleidleisio. Cynhaliwyd prosiect peilot gyda Menter Gorllewin Sir Gâr hefyd, a weithiodd gyda chymdeithas dai leol a gwerthwr tai.

Mae tua 45 o Arweinwyr Iaith yn rhan o'r gwaith o sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo yn y gweithle. Rydym wedi parhau i feithrin yn yr hirdymor berthynas waith â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel darparwr lleol ac fel cyflogwr. Drwy'r Ganolfan, mae staff wedi cael cynnig nifer o gyfleoedd i ddysgu ac i wella'u sgiliau. Rydym yn awyddus i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i ddathlu ein treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, a fydd yn helpu i atal yr iaith rhag diflannu o'r tir.

# Amcan Llesiant 15a - Adeiladu Gwell Cyngor

**Rydym wedi codi Isafswm ein Cyflog Sylfaenol fel ei fod yn uwch na chyfradd Cyflog Byw Cymru**

Rydym wedi cefnogi Cyflog Byw Cymru (sy'n cyfateb i gyfradd y Living Wage Foundation (LWF)) drwy waredu'n gynyddrannol y pwyntiau isaf ar y golofn gyflogau o'n graddfeydd cyflog. Hefyd cafodd tâl atodol ei gyflwyno ym mis Ebrill 2018 a oedd yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael yr hyn sy'n gyfwerth â'r cyflog byw.

Cafodd codiad cyflog cenedlaethol yr NJC ei weithredu ym mis Ebrill 2019 ac fe wnaethom addasu ein graddfeydd cyflog, ac yn sgil hynny codwyd cyflog yr holl weithwyr hynny a oedd yn gyflogedig gennym adeg ei weithredu i isafswm cyflog sylfaenol o **£9.18** yr awr sydd **uwchlaw cyfradd bresennol Cyflog Byw Cymru,** sef £9.00 yr awr.Yn ogystal mae'r pwynt isaf ar y raddfa bellach yn cyfateb i Gyflog Byw Cymru.

Mae cyfradd LWF yn cynnwys cyflog sylfaenol a thaliadau ychwanegol megis lwfansau gweithio ar y penwythnos, sy'n golygu bod llawer o'n staff yn ennill tipyn mwy na chyfradd LWF pan gymerir y taliadau hyn.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae'n bwysig bod ein cynlluniau strategol wedi'u halinio a'u hintegreiddio
- Wrth Adeiladu Gwell Cyngor rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau llywodraeth leol fwy effeithiol, moesegol, tryloyw ac atebol, sy'n ategu ac yn gwella cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth.
- Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol cael **7 maes** o newid corfforaethol, sy'n un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth Adrodd yn Flynyddol.

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Y daith hyd yn hyn: Mai 2018

| | |
|---|---|
| 1 Cynllunio Corfforaethol<br>2 Rheoli Perfformiad<br>3 Cynllunio'r Gweithlu | Cwmpesir gan **Adeiladu Gwell Cyngor** |
| 4 Cynllunio Ariannol<br>5 Asedau<br>6 Caffael<br>7 Risg | Cwmpesir gan **Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau** |

## Mesurau Llwyddiant

**72.4%** o bobl yn cytuno y gallant gael gwybodaeth amdanom ni yn y ffordd maent yn ei ddymuno.
(70.8% o'r blaen)
(Cyfartaledd Cymru 76.2%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**72.1%** o bobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu
(71.9% o'r blaen)
(Cyfartaledd Cymru 77.4%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

*Ddim yn berthnasol*

**11.4%** o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau
(Cyfartaledd Cymru 17.3%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Mae salwch staff yn is nag y mae wedi bod ers **4** blynedd
**9.8**
diwrnod y flwyddyn
(a phrif achos salwch yw straen, iechyd meddwl a blinder)

## Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19:
  - Roedd **72.4%** o'r cyfranogwyr yn **cytuno eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth amdanom yn y ffordd yr oeddent yn ei ffafrio,** ac mae hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 70.8% ond yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 76.2%, ond rydym wedi symud o'r 18fed safle i'r 17eg safle.
  - **72.1%** yn cytuno eu bod **yn gwybod sut i ganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu,** ac mae hwn ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol sef 71.9% ond yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 77.4%. Rydym wedi disgyn o'r 17eg safle i'r 18fed safle yng Nghymru.
  - Dim ond **11.4% oedd yn cytuno bod cyfle ganddynt i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau,** ac mae hyn yn is o lawer na chyfartaledd Cymru o 17.3% ac rydym yn yr 16eg safle. Roedd y cwestiwn hwn yn newydd ar gyfer holiadur 2017/18 ac ni chafodd ei ofyn yn 2018/19.

- Mae **Salwch Staff** o fewn yr Awdurdod wedi lleihau o 10.1 diwrnod yn 2017/18 i **9.8 diwrnod** yn 2018/19 (roedd ar y lefel hon ddiwethaf yn 2014/15 sef 9.6 diwrnod). Rydym wedi symud o'r 11eg safle i'r 8fed safle yng Nghymru. Caiff data salwch ei fonitro a'i ddadansoddi'n rheolaidd i sicrhau taw ar leihau absenoldeb mae'r pwyslais, a hynny gan fforwm Her ac Adolygu sy'n nodi ble mae bylchau yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da. Prif achos salwch o hyd yw straen, iechyd meddwl a blinder.

## Y cynnydd a wnaed

### Cynllunio Corfforaethol

- Roedd y Strategaeth Gorfforaethol newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn cyfuno'r Strategaeth Gorfforaethol flaenorol, ein Cynllun Gwella, Amcanion Llesiant a Chynllun 5 mlynedd y Bwrdd Gweithredol - *Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin.*
- Ers cyhoeddi *Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin* mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo strwythur partneriaeth newydd ac mae cyfres o Grwpiau Cyflawni wedi cael eu sefydlu.
- Rydym yn datblygu ymhellach ein dulliau ymgynghori ac yn datblygu ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau megis y Bartneriaeth Anabledd a'r Fforwm 50+.

### Rheoli Perfformiad

- Bu i Swyddfa Archwilio Cymru ardystio bod ein Strategaeth Gorfforaethol Newydd (Mehefin 2018) a'n Hadroddiad Blynyddol (Hydref 2018) yn bodloni gofynion deddfwriaethol.
- I sicrhau ein bod yn cymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni ein Hamcanion Llesiant, roeddem wedi ail-lunio ein System Monitro Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) a'r fformat cynllunio busnes.

### Cynllunio'r Gweithlu

- Rydym wedi cael *achrediad arian* o ran Safon Buddsoddwyr mewn Pobl.
- Ym mis Mawrth 2018 dechreusom dalu'r hyn sy'n cyfateb i'r *Foundation Living Wage* i'n staff (esbonir hyn yn fwy manwl yn Amcan Llesiant 5 - Trechu Tlodi trwy wneud popeth yn ein gallu i'w atal, helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rhai sy'n byw mewn tlodi)
- Rydym wedi ymrwymo i'r 'adduned Amser i Newid', sef datganiad cyhoeddus bod sefydliad am gymryd cam er mwyn mynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethau sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl.

## Fel rhan o wythnos Genedlaethol Prentisiaethau, dathlom gyflawniadau staff sydd wedi cwblhau eu prentisiaethau





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Rheoli Perfformiad, TGCh, TIC:
**Y Cynghorydd Mair Stephens**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 15b - Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

**Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau o oddeutu £50 miliwn yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, gyda'r effaith leiaf posibl ar wasanaethau rheng flaen.**

Mae thema gyson wedi bod yn perthyn i'r sefyllfa ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol, wrth i doriadau sylweddol gael eu gwneud i lefel yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau. Rydym yn ymdrechu i'r eithaf i reoli'r sefyllfa hon drwy leihau ein gwariant heb fod unrhyw effaith sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i'n cymunedau.

## Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni 'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'.
- Mae gwasgfeydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfeydd, ac adeiladau ysgol a phriffyrdd y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.
- Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol cael **7 maes** o newid corfforaethol, **4** o fewn Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau sy'n un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth Adrodd yn Flynyddol.

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Cynllunio Ariannol | |
| 5 | Asedau | **Gwneud Gwell** |
| 6 | Caffael | **Defnydd o Adnoddau** |
| 7 | Risg | |

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Y daith hyd yn hyn: Mai 2018

## Mesurau Llwyddiant

Cynnydd o **14%** mewn Taliadau *'Ar-lein Amdani'*
(O 34,494 i 39,321)

**£8m** o'r arbedion cyfredol wedi'u gwneud yn 2018/19

**11.3%** o bobl yn cytuno ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb
(8% o'r blaen)
(Cyfartaledd Cymru 14.5% ac yn y 7fed safle)
*(Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru)*

## Egluro'r Canlyniadau

- Mae mwy o gwsmeriaid yn **talu am wasanaethau ar-lein** ac mae nifer y taliadau wedi cynyddu 5% o 34,494 yn 2017/18 i **39,321 yn 2018/19.**
- Mae mynd i'r afael â'r flaenoriaeth lesiant hon yn cwmpasu'r holl feysydd gwasanaeth ac mae'n ymwneud â buddsoddiad yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodelau cyflawni sy'n ariannol gynaliadwy - ceir llawer o enghreifftiau o hyn ar draws gwahanol adrannau, fel cynyddu'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol lle mae'n bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn well, symud tuag at weithio ystwyth, a thrwy hynny leihau costau ystad y Cyngor yn y dyfodol.
- Yn anffodus yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, dim ond 11.3% o'r cyfranogwyr oedd yn *cytuno ein bod yn gofyn am eu sylwadau cyn pennu ein cyllideb* (cyfartaledd Cymru oedd 14.5%), er bod hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 8% ac rydym wedi symud o'r 13eg safle i'r 7fed safle.

## Y cynnydd a wnaed

**Cynllunio Ariannol**:

- Roedd ein Hamcanion Llesiant yn nodi ymrwymiadau ariannol ar gyfer pob amcan ac roedd y Seminarau ar y Gyllideb i'r Aelodau wedi nodi ein Hamcanion Llesiant wrth ystyried cynigon y gyllideb. Roedd yr asesiadau o effaith hefyd wedi sicrhau bod effaith ein Hamcanion Llesiant yn cael ei hystyried.
- Rydym wedi gwella ein riportio ariannol drwy ddarparu gwybodaeth ddigonol am gronfeydd wrth gefn a thrywydd archwilio clir ar gyfer penderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn ac wedi cryfhau ein trefniadau cynllunio ariannol. Cyflwynir Cynlluniau Busnes i Bwyllgorau Craffu ar yr un pryd ag ymgyngoriadau ynghylch cynigion y gyllideb, paratoir cynigion arbedion 3 blynedd ac mae trefniadau monitro manwl ar waith.

**Asedau:**

- Bu i'r gwaith barhau ar gasglu data ynghylch ein holl asedau cymunedol gyda golwg ar wneud gwell defnydd o gyfleusterau. Mae trafodaethau ynghylch trosglwyddo Asedau Cymunedol yn dal i ddigwydd gyda phartïon amrywiol sydd â diddordeb.

**Caffael:**

- Ym Mehefin 2018 roeddem wedi cyhoeddi ein Strategaeth Caffael 2018-22 sy'n pennu ein blaenoriaethau strategol a'n hymrwymiad i sicrhau bod llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir Gaerfyrddin wrth wraidd ein gweithgareddau.

**Y Risgiau:**

- Cafodd ein Cofrestrau Risg Corfforaethol, Adrannol a Gwasanaeth i gyd eu diweddaru yn 2018/19 yn unol â Strategaeth Cynllunio Wrth Gefn a Rheoli Risg 2018-22 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau Budd i'r Gymuned, ac adroddodd cynllun £8.8 miliwn ar gyfer Ysgol Penrhos yn Llanelli y cai £1.86 ei ailfuddsoddi yn economi Cymru am bob £1 a gai ei gwario.**





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:
**Y Cynghorydd David Jenkins**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

# ATODIADAU

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig hefyd. Roedd ein Cynllun Llesiant yn cyfuno'r gofynion ac mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gwneud yr un peth.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau (neu hyd yn oed fwy o wasanaethau) am lai o arian'.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
***'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'***

b) Mae'n rhaid i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol (gweler **Atodiad 1**)

c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.




Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus roedd yn ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

## Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

| Amcanion Llesiant / Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella Sir Gaerfyrddin 2017/18 | | | 7 Nod Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Llewyrch | Cydnerthedd | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg | Cyfrifoldeb Byd-eang |
| Dechrau'n Dda | 1 | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 2 | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 3 | Cefnogi a gwell cynnydd a llwyddiant i bob dysgwyr | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| | 4 | Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Byw'n Dda | 5 | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 6 | Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 7 | Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | 8 | Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Heneiddio'n Dda | 9 | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu, a chymunedau mwy diogel | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | 10 | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 11 | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus | 12 | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| | 13 | Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 14 | Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 15 | Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Newidiadau Syml rydym wedi gwneud i gefnogi'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | ✓ Cefnogi busnesau bach a chanolig (SMEau), busnesau cymdeithasol a chydweithredol i gydweithio i geisio ar y cyd am gytundebau. |
| | ✓ Penodi pencamwpyr gwerth cymdeithasol. |
| | ✓ Cynnal syrjeris rheolaidd ar gyfer cyflenwyr. |
| | ✓ Cyhoeddi a dadansoddi data am y dull y byddwch chi'n caffael nwyddau a gwasanaethau. |
| | ✓ Talu ein cyflenwyr yn brydlon. |
| | ✓ Archwilio dewisiadau cyllido, neu gefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus. |
| | ✓ Sicrhau fod pob datblygiad newydd ac ôl-osod cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy a deunyddiau a ailgylchwyd. |
| | ✓ Gwneud yn fawr o'r potensial ar gyfer prentisiaethau yn ein sefydliad. |
| | ✓ Ystyried cyfleoedd i secondio staff oddi mewn i sefydliadau a rhyngddynt, er mwyn rhannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy. |
| Cymru gydnerth | ✓ Rheoli ymylon ffyrdd a llecynnau glas cysylltiedig (fel lle o gwmpas adeiladau) ar gyfer blodau gwylltion ac i beillio. |
| | ✓ Lleihau'r defnydd o blaladdwyr a gwrteithiau ar ymylon ffyrdd a llecynnau glas trefol. |
| | ✓ Defnyddio compost di-fawn mewn cynlluniau plannu ledled dinasoedd, trefi a phentrefi. |
| | ✓ Darparu lle ar gyfer bywyd gwyllt, fel blychau adar, cartrefi i drychfilod, pyllau dŵr a bocsys ystlumod – yn enwedig mewn datblygiadau newydd. |
| | ✓ Mapio tir cyhoeddus i adnabod a hysbysu am dir sy'n agored i gael ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol, gyda'r bwriad o gysylltu cynefinoedd bywyd gwyllt. |
| | ✓ Cynnwys addysg 'isadeiledd gwyrdd / bioamrywiaeth' ar gyfer staff ar draws POB adran. |
| | ✓ Galluogi partneriaethau lleol ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol, gan ddod â chynrychiolwyr o sefydliadau lleol gwirfoddol a sector gyhoeddus at ei gilydd. |
| | ✓ Caffael a phlannu coed a llwyni brodorol yn unig yn ddewis cyntaf. |
| | ✓ Mabwysiadu polisi plastig un-defnydd, er mwyn dileu plastig un-defnydd o'n ystâd. |
| Cymru iachach | ✓ Ystyried iechyd meddwl yn ein gweithle. |
| | ✓ Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl a hunanladdiad i bob aelod o staff. |
| | ✓ Adolygu ein polisïau i sicrhau ein bod yn gwneud yn fawr o gyfleoedd i wella iechyd a llesiant ein cyflogai. |
| | ✓ Darparu loceri ar gyfer ein gweithwyr. |
| | ✓ Cael polisi gweithio hyblyg. |
| | ✓ Annog eich cyflogeion i gymryd seibiant a bwyta i ffwrdd o'u desgiau. |
| | ✓ Annog pwyllgorau ar eich traed neu wrth gerdded, ble bo'n addas. |
| | ✓ Adeiladu darlun o pa mor hawdd yw hi yn eich gweithle chi i bobl sydd eisiau cerdded, seiclo neu ddefnyddio ac adnabod meysydd ble gellir gwella. |
| | ✓ Mabwysiadu mentrau i sicrhau fod gan blant fynediad i chwarae awyr-agored beunyddiol |
| | ✓ Cefnogi enh cymunedau i ailgynllunio'u strydoedd i wella'u iechyd a'u lles. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ Gwneud gwybodaeth gyhoeddus yn hygyrch drwy amrywiaeth o fformatau. |
| | ✓ Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod a Iaith arwyddo Prydeinig (BSL) ar gyfer eich rheng flaen. |
| | ✓ Sicrhau fod ein staff yn ymgymryd â hyfforddiant am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). |
| | ✓ Sicrhau fod gweithwyr yn wasanaethau penodol yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches. |
| | ✓ Cyhoeddi data ar nodweddion a warchodir a graddau cyflog yn y gweithlu, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. |
| | ✓ Mentrau i recriwtio pobl o blith grwpiau a dangynrychiolir yn ein gweithlu. |

## Newidiadau Syml rydym wedi gwneud i gefnogi'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ Galluogi pobl leol i wella gofod nad yw'n cael ei garu. |
| | ✓ Mabwysiedig credydau amser yn ein sefydliad. |
| | ✓ Chwarae eich rhan mewn galluogi pobl leol i ddod ynghyd mewn cymunedau i gwrdd ac adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol fel y fenter 10 trefi. |
| | ✓ Ymchwilio i ddulliau cyfranogol ynghylch y gyllideb i alluogi pobl i wneud penderfyniadau ar sut y caiff peth cyllid ei ddyrannu drwy ein Harolwg o'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb. |
| | ✓ Cefnogi cymunedau ag ein sefydliadau i ddod yn ddementia-gyfeillgar. |
| | ✓ Cyhoeddusrwydd i gyfleoedd gwirfoddoli yn lleol. |
| | ✓ Archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau rhwng y cenedlaethau. |
| | ✓ Annog cyfleoedd trafnidiaeth gymunedol, fel rhannu cerbyd. |
| | ✓ Darparu cyngor am ddyled a mynediad at undebau credyd a mentrau ariannu eraill o ran datblygu cymunedol. |
| | ✓ Mapio'r sefydliadau cymunedol sy'n angori'r gwaith a wnawn ac archwilio cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ Sicrhau fod gan bob un o'ch pwyntiau mynediad gyfarchion dwyieithog. |
| | ✓ Defnyddio atalnod Iaith Gwaith Cymraeg ar linynnau gwddf a llofnodion e-bost pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu. |
| | ✓ Annog eich staff i gofrestru am eu cerdyn llyfrgell rhad ac am ddim, ac i'w ddefnyddio, gan roi gwybodaeth hygyrch am yr hyn a gynigir gan y llyfrgell. |
| | ✓ Cymryd rhan yn y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol. |
| | ✓ Hybu cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â diwylliant drwy gyfrwng Gŵyl Gwanwyn. |
| | ✓ Sicrhau fod lleoliadau celfyddydol yr ydych chi'n gweithio gyda nhw'n rhan o'r Cynllun Mynediad Cenedlaethol (Hynt). |
| | ✓ Ystyried y cyfleoedd i gefnogi a datblygu clybiau lleol sy'n ymwneud â chwaraeon. |
| | ✓ Rhoi mynediad rhad ac am ddim i ParkRun ar unrhyw dir cyhoeddus. |
| | ✓ Cefnogi a hybu'r Cynllun Noson Allan. |
| | ✓ Gwneud yn siŵr fod mynediad rhad ac am ddim i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a llecynnau glas yn parhau. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | ✓ Adolygu ein polisi caffael a sicrhau ei fod yn cynnwys arferion teg a moesegol (i gynnwys cyngor gwarchodaeth forol a chyngor gwarchodaeth coedwigaeth). |
| | ✓ Gwirio a yw ein cytundebau'n cwrdd ag anghenion y Ddeddf Caethwasaeth Fodern. |
| | ✓ Gwneud un peth o blaid addysg fydeang fel ymwneud â Diwrnod Troi'n Wyrdd neu Awr y Ddaear. |
| | ✓ Sicrhau fod ein sefydliad yn cymryd rhan ym Mhythefnos Masnach Deg. |
| | ✓ Adolygu ein agwedd at ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chwarae ein rhan wrth beri i Gymru ddod yn Genedl Loches. |
| | ✓ Defnyddio papur a ailgylchwyd yn unig, ac mae cyfarfodydd y Cyngor yn rhydd o bapur o Fedi 2019. |
| | ✓ Rydym yn cyfrifo ac yn deall ôl troed carbon ein sefydliad |
| | ✓ Cefnogi ein staff ac ymwelwyr i ddeall eu hôl troed carbon personol. |
| | ✓ Adolygu ein cytundebau ynni, darparwyr pensiwn a'n portffolios buddsoddi a lleihau ein baich ar y blaned a'i phobl. |

Cyswllt i'r **Newidiadau Syml** y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# Mesurau Llwyddiant am ein Hamcanion Llesiant

# Mesurau Llwyddiant i'r Amcanion Llesiant

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau ein mesurau llwyddiant am bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru.
- Ein canlyniad fwyaf diweddar ac a yw'n well na'n canlyniad gynt.
- Ein safle fwyaf diweddar o'i gymharu â'n safle gynt

| | PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella o'r flwyddyn blaenorol: Canlyniad blaenorol | Canlyniad fwyaf diweddar | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| | | | | | Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● ● at ein sefyllfa fwyaf diweddar ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | % Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael **3 lleoliad neu fwy** yn ystod y flwyddyn *(PAM/029)* | 8.8 | 10.4 | ↓ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | % **Gordewdra** yn ystod plentyndod | 29.4 | 26.6 | ↑ | 34.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 17.8 |
| | **WBO 3 - Cefnogi a gwell cynnydd a llwyddiant i bob dysgwyr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | **Sgôr 'Cap 9' cyfartalog** ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 *(PAM/032)* | 360.8 | 363.1 | ↑ | 317.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 377.1 |
| 4 | % **Presenoldeb** disgyblion mewn **ysgolion cynradd** *(PAM/007)* | 94.4 | 93.9 | ↓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 95.2 |
| 5 | % **Presenoldeb** disgyblion mewn **ysgolion uwchradd** *(PAM/008)* | 94.3 | 93.8 | ↓ | 92.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 95.0 |
| 6 | **Boddhad ag ysgol gynradd** y plentyn *(ACC)* | 90 | 84 | ↓ | O dan 81 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 99 |
| | **WBO 4 - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | % Gadawyr **Blwyddyn 11** nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth **(NEETs)** *(PAM/009)* | 1.4 | 1.8 | ↓ | 2.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 0.5 |
| 8 | % Gadawyr **Blwyddyn 13** nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth **(NEETs)** *(5.1.0.2)* | 3.0 | 4.9 | ↓ | 10.7 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 1.1 |
| | **WBO 5 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | **Y canran bwlch** yn Sgôr 'Cap 9' cyfartalog rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a'r disgyblion sy ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim | 19.0 | 19.7 | ↓ | 37.2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 15.2 |
| 10 | % Aelwydydd y **llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref** *(PAM/012)* | 65.1 | 59.9 | ↓ | 48.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 82.4 |
| 11 | Aelwydydd lle ceir **amddifadedd materol** *(ACC) (DLIC)* | 15.8 | 13.5 | ↑ | 17.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 8.6 |
| 12 | % Aelwydydd sy'n **byw mewn Tlodi** *(CACI 'PayCheck')* | 35.0 | 35.5 | ↓ | 45.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 21.9 |

| | PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella o'r flwyddyn blaenorol: Canlyniad blaenorol | Canlyniad fwyaf diweddar | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| | | | | | Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● ● at ein sefyllfa fwyaf diweddar ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 6 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 13 | **Ffigurau cyflogaeth** *(SYG – Arolwg Poblogaeth Blynyddol) (DLIC)* | 73.7 | 71.6 | ↓ | 67.3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 80.4 |
| 14 | **Nifer y swyddi a grëwyd gyda chymorth Adfywio** *(EconD/001)* | 352.5 | 419.0 | ↑ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | **Tâl wythnosol gros cyfartalog (£)** *(SYG – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)(DLIC)* | 517.5 | 511.4 | ↓ | 440.6 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 638.5 |
| 16 | **Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch** *(StatsCymru) (DLIC)* | 37.8 | 38.0 | ↑ | 24.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 51.5 |
| 17 | Pobl yn fodlon neu'n lled **fodlon ar eu swyddi** *(ACC) (DLIC)* | 80.0 | 82.5 | ↑ | 74.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 86.3 |
| | **WBO 7 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | **Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol** yn y Sir *(7.3.2.24)* | 235 | 247 | ↑ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 8 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 19 | % Oedolion sy'n dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn** *(ACC) (DLIC)* | 69 | 66 | ↓ | 65 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 78 |
| 20 | % Oedolion sy'n dweud bod ganddynt **salwch hirdymor** *(ACC) (DLIC)* | 50 | 53 | ↓ | 55 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 38 |
| 21 | **Sgôr lles medygol** oedolion *(ACC) (DLIC)* *(Sgôr allan o 70)* | 50 | 51 | ↑ | 50 | | | | | | | Efo 5 | | | | Efo 5 | | | | | | | | | | 53 |
| 22 | % Oedolion sydd â **llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach** *(ACC) (DLIC)* Dim yn ysmygu, yfed > 14 uned neu lai, bwyta > 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r y diwrnod, mynegai màs y corff, yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos). | 8.2 | 8.8 | ↓ | 15.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 6.9 |
| | **WBO 9 - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 23 | % sy'n dweud bod ganddynt **ymdeimlad o gymuned** (Deillio o deimlad o berthyn, gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.) (ACC) (DLIC) | 47.7 | 51.6 | ↑ | 38.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 62.0 |
| 24 | **Pobl yn teimlo'n ddiogel** (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio) *(ACC) (DLIC)* | 88.2 | 88.2 | ↔ | 71.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 96.7 |

PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol;
SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol;
ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru;
DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol

Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● ● at ein sefyllfa fwyaf diweddar ■

| | | A yw ein canlyniad wedi gwella o'r flwyddyn blaenorol: Canlyniad blaenorol | Canlyniad fwyaf diweddar | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| | **WBO 10 - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 25 | Cyfradd y **bobl a gedwir yn yr ysbyty** wrth **aros am ofal cymdeithasol** fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed *(PAM/025)* | 2.50 | 4.21 | ↓ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 26 | Cytuno bod **gwasanaethau gofal cymdeithasol da** ar gael yn yr ardal *(ACC)* *(henoed, plant, anabl a gofalwyr)* | 56.2 | 47.5 | ↓ | 44.0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 57.8 |
| 27 | Nifer y **dyddiau calendr** ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** *(PAM/015)* | 161 | 157 | ↑ | 298 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 126 |
| | **WBO 11 - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 28 | % o **bobl sy'n unig** *(ACC) (DLIC)* | 17.1 | 16.6 | ↑ | 22.1 | | | | | | | | | | | | Yr un fath | | | | | | | | | 11.1 |
| | **WBO 12 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 29 | **Defnydd o egni adnewyddadwy (kWh)** | 937,330 | 979,071 | ↑ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 30 | % Y **gwastraff** wedi'u **ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio** *(PAM/030)* | 63.64 | 58.95 | ↓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 13 - Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 31 | % **Y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/020)* | 4.1 | 5.2 | ↓ | 6.3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 1.7 |
| 32 | **% Y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/021)* | 3.1 | 4.2 | ↓ | 6.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 1.4 |
| 33 | **% Y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/022)* | 11.9 | 12.5 | ↓ | 21.6 | | | | | Yr un fath | | | | | | | | | | | | | | | | 3.0 |
| 34 | Y nifer a **laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol** yn sgil damwain ar y ffordd *(5.5.2.21)* | 83 | 97 | ↓ | 118 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 12 |
| | **WBO 14 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 35 | Gallu **siarad Cymraeg** *(ACC) (DLIC)* | 43.6 | 37.8 | ↓ | o dan 8.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | Yr un fath | | | 66.0 |
| 36 | % Y **disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg** ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen *(PAM/033)* | 55.0 | 53.5 | ↓ | 3.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 98.5 |
| 37 | % Y bobl sydd wedi ymweld â **safle celfyddydol** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)* | 69.3 | 67.4 | ↓ | 56.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 78.8 |
| 38 | % Y bobl sydd wedi **ymweld â safle treftadaeth** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)* | 63.8 | 64.7 | ↑ | 48.3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 77.0 |
| 39 | % Y bobl sydd wedi **ymweld ag amgueddfa** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)* | 36.0 | 34.6 | ↓ | 27.8 | | | | | Yr un fath | | | | | | | | | | | | | | | | 57.6 |

| | PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella o'r flwyddyn blaenorol | | | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Canlyniad blaenorol | Canlyniad fwyaf diweddar | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| | | | | | Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● ● at ein sefyllfa fwyaf diweddar ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **40** | **Taliadau 'Ar-lein Amdani'** | **34,494** | **39,321** | ↑ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **41** | % Y bobl sy'n **cytuno ei fod yn gallu cyrraedd at wybodaeth drwy'r dull a ffafrir** *(ACC)* | **70.8** | **72.4** | ↑ | 62.8 | | | | ● | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | 86.6 |
| **42** | % Y bobl sy'n gwybod **sut i ddysgu mwy am wasanaethau Awdurdod Lleol** *(ACC)* | **71.9** | **72.1** | ↑ | 63.1 | | | | ■ | ● | | | | | | | | | | | | | | | | 84.3 |
| **43** | % Y bobl sy'n **cytuno ei fod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau Awdurdod Lleol.** *(ACC)* | Mesur Newydd | **11.4** | Ddim yn gymwys | 7.8 | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | 22.4 |
| **44** | Nifer y **diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch.** *(PAM/001)* | **10.1** | **9.8** | ↑ | 12.7 | | | | | | | | | | | ● | | | ■ | | | | | | | 8.3 |
| **45** | **Gostyngiad mewn costau cynnal y sefydliad** (£m) | **8.6** | **8.0** | ↑ | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **46** | % Y bobl sy'n **cytuno fod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â'r bobl leol wrth osod cyllideb.** *(ACC)* | **8.0** | **11.3** | ↑ | Below 7.5 | | | | | | | | | ● | | | | | | ■ | | | | | | 20.8 |

## Ceir isod sylwadau ar y Mesurau Llwyddiant uchod sydd naill ai wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn a/neu wedi cwympo o ran safle.

**1** Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn Sir Gaerfyrddin i 183 sydd ymhlith y gorau yng Nghymru, ond mae'r gostyngiad yn effeithio ar ein ffigurau gwaelodlin, ac mae ein canlyniad wedi cynyddu o 8.85% i 10.4%.
Ymhlith y rhesymau dros symud y mae:- lleoliadau argyfwng/amgen ar gyfer ceiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, y mae gan bob un ohonynt anghenion gwahanol a diwylliannol; angen lleoliadau argyfwng/mwy profiadol ar frodyr a chwiorydd o achos bod angen cymorth ar lefel uchel gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed, er enghraifft babi â llawer o anghenion meddygol ac ati.
Bydd yr adran yn parhau i adolygu a gwella sefydlogrwydd lleoliadau drwy'r panel llety. Bydd cyfarfodydd cymorth â lleoliadau yn sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth dda a bod y plant a roddir yn eu gofal yn gallu cael eu cadw'n ddiogel gydag adnoddau ychwanegol. Nid oes data cymaradwy wedi'i gyhoeddi ar gyfer y mesur hwn.

**4** Mae'n amlwg bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gostwng yn sylweddol yn Sir Gaerfyrddin o 94.4% i 93.9%, ac yn hytrach na bod yn yr 21ain safle, ni yw'r gwaethaf yng Nghymru bellach. Y rheswm pennaf dros hyn oedd salwch disgyblion gan fod llawer iawn o firysau a salwch ymysg plant y flwyddyn honno. Felly fe effeithiwyd ar rai ysgolion yn fwy nag eraill.
Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i weithio gydag ysgolion cynradd i leihau absenoldeb y mae modd ei osgoi, a bydd hon yn flaenoriaeth allweddol o hyd dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys helpu ysgolion i ymateb i absenoldeb yn ystod y camau cynnar a sicrhau y darperir lefel uchel o gyngor, cymorth ac arweiniad i deuluoedd lle bo'r angen. Yn yr achosion prin iawn lle mae presenoldeb wedi methu â gwella oherwydd absenoldeb anawdurdodedig, nid oes opsiwn wedi bod gennym heblaw cyfeirio'r achos i'r Llys er mwyn sicrhau hawl addysgol y disgyblion hyn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysgol a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau parhaus a gweithredu'r Blaen-gynllun Presenoldeb yn dilyn ymgynghori â Phenaethiaid.

**5** Mae presenoldeb yn ein Hysgolion Uwchradd wedi gostwng o 94.3% i 93.8% ac rydym wedi disgyn o'r 10fed i'r 12fed safle yng Nghymru.
Mae absenoldeb awdurdodedig wedi aros yn gyson ar 4.8% ond mae absenoldeb anawdurdodedig wedi cynyddu ac yn benodol yn y defnydd o gôd absenoldeb 'Arall'. Mae cynllun gwella cynhwysfawr y Gwasanaeth Llesiant Addysg yn amlinellu strategaethau cydweithredol ledled yr adran a fydd yn rhoi rhagor o gefnogaeth i'n hysgolion wella cyfraddau presenoldeb disgyblion. Byddant hefyd yn cysylltu â'r ysgolion hynny sydd â chanran uchel o godau 'O' i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau codio.

**6** Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, roedd 84% o'r cyfranogwyr yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn wedi gostwng o 90% yn y flwyddyn flaenorol ac mae'n is na chyfartaledd Cymru gan ein symud o'r 9$^{fed}$ safle i'r 19$^{eg}$ safle yng Nghymru. Maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn ledled Cymru oedd 1,450, ac o'r nifer hwnnw byddai nifer llai wedi bod yn ateb o Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn wedi bod yn sampl cymharol fach o deuluoedd o fewn Sir Gaerfyrddin oedd â phlant oedran cynradd, ac nid oes dim manylion o ran pa ysgolion oedd wedi'u cynnwys na pha mor gynrychioliadol oedd yr ymatebwyr. Fe wnawn nodi'r gostyngiad yn ei gyd-destun. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda theuluoedd, uwch-arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ar draws y sector cynradd i wella ymgysylltiad, dealltwriaeth a phartneriaethau effeithiol i gefnogi mwynhad, cynnydd a chyflawniad pob disgybl.

7 1.8%, neu 32 o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn NEET, sy'n cyfateb i 96.1% o ddisgyblion, neu 1,743 o ddisgyblion sy'n dal mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Mae hyn yn gynnydd ar 1.4% (27 o ddisgyblion) y flwyddyn flaenorol, ac rydym wedi symud o'r 13eg safle i'r 16eg safle yng Nghymru. Roedd nifer fach o ddisgyblion (38), naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael Sir Gaerfyrddin, a gallai rhai ohonyn nhw hefyd fod yn NEET. Gwaith partneriaeth gan ysgolion, staff y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ac asiantaethau allanol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i gyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin.

8 4.9% neu 33 allan o 673, o ddisgyblion Blwyddyn 13 yn NEET, a 41 o ddisgyblion naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael yr ardal. Mae hyn yn gynnydd ar 3.0% (20 o ddisgyblion) y flwyddyn flaenorol ac rydym wedi symud o'r 15$^{fed}$ safle i'r 19$^{eg}$ safle yng Nghymru. Mae'r ffactorau oedd yn effeithio ar y canlyniad o'r blaen yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch. Byddwn yn ceisio data ansoddol i wella'r sefyllfa hon.

9 Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y sgôr (9) wedi'i chapio ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYADD) o 307.6 i 308.1. Mae disgyblion PYADD yn dal i fod yn ffocws allweddol i'n gwaith ar draws y cwricwlwm. Dylai perfformiad gwell gan ddisgyblion PYADD barhau i fod yn ganolog i'n meddylfryd, yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar 'y bwlch' (sy'n cynyddu ychydig yn naturiol o achos cynnydd ym mherfformiad disgyblion nad ydynt yn cael PYADD).

10 O'r 435 o geisiadau digartrefedd, roedd 259 yn ataliadau llwyddiannus (10 achos yn llai na'r llynedd). Yn ychwanegol at hyn, roedd 42 o achosion naill ai wedi colli cysylltiad, wedi methu ymgysylltu â ni neu wedi gwrthod cymorth gennym, ac felly ni ellid eu cofnodi fel achosion atal.
Yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol, rydym wedi sylwi bod landlordiaid preifat yn amharod i barhau gyda thenantiaid sy'n hawlio budd-dal. Hefyd mae tenantiaid o'r sector preifat yn cysylltu â'r gwasanaeth pan maent ar fin cael eu troi allan yn hytrach na phan maent yn cael rhybudd. O ganlyniad, ychydig iawn o amser sydd i ymgysylltu â'r landlord er mwyn atal neu unioni'r sefyllfa. Mae hwn yn fater rydym wedi ei nodi fel rhan o'n hadolygiad digartrefedd diweddar ac rydym wedi datblygu ymagwedd strategol newydd.

12 Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo "incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain". Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn llai na £18,868 y flwyddyn (h.y. 60% o £31,446).
Felly, gellir diffinio 35.5% (28,881 o aelwydydd) fel rhai sy'n byw mewn tlodi yn Sir Gaerfyrddin, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 33.6% ac wedi cynyddu ar 35% (28,223 o aelwydydd) yn 2017. Rydym hefyd wedi gostwng o'r 8fed safle i'r 13eg gwaethaf yng Nghymru.

13 Bu gostyngiad o 2.1% yn y ffigurau cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2018/19. Ar ôl dadansoddi'r ystadegau ymhellach, mae'n ymddangos bod tuedd genedlaethol o ostyngiad sylweddol mewn ffigurau cyflogaeth mewn amaethyddiaeth sef 4.3%, gostyngiad o 9.4% mewn gwasanaethau bwyd a llety, gostyngiad o 2% mewn adeiladu, a gostyngiad o 2% mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hyn adlewyrchu diffyg buddsoddiad gan fusnesau o ganlyniad i BREXIT, a chan ein bod yn sir ymylol sydd â nifer o sectorau sy'n agored i effeithiau BREXIT, efallai ein bod yn teimlo'r effeithiau hynny'n fwy difrifol nag Awdurdodau Lleol eraill. O fewn y rhanbarth mae awdurdodau lleol eraill hefyd wedi symud i lawr o ran eu safleoedd, gan gynnwys Abertawe a Phowys. Mae'r ffigurau'n siomedig gan fod yr awdurdod wedi rhoi nifer o fentrau ariannu ar waith i ysgogi swyddi a thwf yn y sir ar ffurf y Gronfa Datblygu Eiddo, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a Grantiau Busnes. Roedd nifer y swyddi a grëwyd drwy gymorth adfywio yn ystod 2018/19 yn 419 o gymharu â 352.5 yn ystod 2017/18. Felly mae perfformiad gweithgarwch adfywio o ran creu swyddi wedi cynyddu o gymharu â gostyngiad yn sirol. Efallai na fydd gwir effaith y grantiau ategol hyn yn cael ei gwireddu tan flynyddoedd yn ddiweddarach, ac mae angen monitro hyn wrth symud ymlaen.

15 Mae cyfanswm y tâl wythnosol gros canolrifol wedi gostwng o £6.40 i £511.40, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef £518.60.
Mae hyn yn adlewyrchu amodau marchnad busnes Sir Gaerfyrddin, ac mae'n anodd esbonio'r gostyngiad gan nad oes unrhyw resymau arwyddocaol yr ydym yn ymwybodol ohonynt sy'n effeithio ar gyflogau.

**19** Dywedodd 60% o gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin yn Arolwg Cenedlaethol Cymru fod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn, ac mae hwn yn ostyngiad bach ar y canlyniad blaenorol o 69% ond yn gymharol rydym wedi disgyn o'r 14eg safle i'r 21ain safle yng Nghymru.
Er bod y canlyniad hwn yn siomedig, yn ddiweddar mae ein gwasanaethau Hamdden wedi ail-strwythuro i greu 3 x swyddog Oedolion Egnïol a fydd yn ategu'r gwaith mae ein swyddogion Pobl Ifanc Egnïol yn ei wneud mewn ysgolion a chymunedau – ac mae pob un am geisio newid ymddygiad arferol mewn perthynas â gwell iechyd. Gan weithio gyda phartneriaid fel Iechyd y Cyhoedd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, byddwn yn parhau i hyrwyddo amgylchedd iach i drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymarfer corff, maeth ac aer glanach.

**20** Dywedodd 53% o gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin yn Arolwg Cenedlaethol Cymru fod ganddynt salwch hirdymor, anabledd neu lesgedd, ac mae hyn wedi cynyddu ychydig ers canlyniad yr arolwg blaenorol sef 50% ac rydym wedi gostwng o'r 16eg safle i'r 21ain safle.
Er bod sawl peth yn dylanwadu ar y mesur hwn, mae gwasanaethau hamdden Sir Gaerfyrddin yn dal i weld cynnydd yn nifer ac effaith cynlluniau fel ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, lle mae mwy na 1,200 o bobl wedi'u hatgyfeirio yn y 12 mis diwethaf, gyda 60% o'r atgyfeiriadau hyn yn cynnal eu harferion ymarfer corff drwy ymuno i fod yn aelodau rheolaidd o'r gampfa a chyfleusterau ffitrwydd. Ein bwriad yw helaethu'r cynllun hwn o ran atgyfeiriadau a'r math o weithgareddau sydd ar gael i'r rhai a atgyfeirir.

**22** Mae gan 8.8% o'r cyfranogwyr lai na dwy ffordd iach o fyw, ac mae hyn wedi cynyddu ychydig ers y llynedd (8.2%) ond mae'n parhau i fod yn well na chyfartaledd Cymru, sef 10.1%, ond rydym wedi disgyn o'r 5ed safle gorau i'r 9fed gorau yng Nghymru.
Bydd y buddsoddiad o £200m yn y pentref iechyd a llesiant newydd yn Llynnoedd Delta, Llanelli, yn darparu model o'r radd flaenaf o gyfleuster ymyrraeth gynnar integredig, a fydd yn helpu i symud pobl mewn modd cadarnhaol ar hyd y continwwm iechyd, drwy bob cam o'u taith bywyd. Bydd y cynllun cydweithredol hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd union wrth ymyl y datblygiad newydd hwn.

**25** 81 o gleientiaid (75+ oed) wedi eu cadw yn yr ysbyty yn ystod 2018/19 tra'n aros i gael gofal cymdeithasol, sy'n gryn gynnydd ar ffigwr y flwyddyn flaenorol sef 47. Rydym wedi bod yn datblygu gwasanaethau newydd i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty a sicrhau bod ein dinasyddion yn cael y gofal iawn ar yr adeg iawn. Ynghyd â'n gwasanaeth ailalluogi a arweinir gan therapi, rydym wedi datblygu Gwasanaeth Asesu Canlyniadau sy'n sicrhau bod yr holl bobl sydd angen gofal a ddarperir yn statudol yn cael cyfle i gael asesiad pellach yn eu cartref er mwyn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Gan fod mwy o bobl â chydafiachedd, sy'n arwain at anghenion cymhleth a lefelau uwch o ofal, rydym wastad yn monitro ac adolygu ein gwasanaethau i ateb y galw hwn. Y prif resymau yw'r cymhlethdod cynyddol a waethygir gan gyflwr yr henoed yn yr ysbyty a chan dangyflawni o ran gofal cartref yn gyffredinol. Un gwelliant allweddol sydd ei angen i leihau oedi yn yr ysbyty yw gwella arferion nyrsio a therapi yn yr ysbyty i wella symudedd unigolion pan gânt eu derbyn, gan felly leihau'r angen am ofal.

**26** Yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2018/19 Cymru, roedd 47.5% o'r cyfranogwyr yn credu bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal, ac mae hwn wedi gostwng o'r canlyniad blaenorol o 56.2%. Mae ein safle yng Nghymru wedi gostwng o'r 15fed i'r 19eg safle. Er bod hyn yn siomedig a'u bod yn aneglur ynghylch yr ymatebwyr, mae'r adran yn credu ei bod yn darparu gwasanaeth o safon i'w defnyddwyr gwasanaeth a bod ganddi'r dystiolaeth i brofi hyn. Cafodd yr adran Adroddiad Arolygu da iawn gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mai 2019 (cyhoeddwyd 7 Awst 2019) a oedd yn cadarnhau y gall pobl fod yn hyderus ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir. At hynny, fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, cafodd yr adran gyfradd ymateb ardderchog o 604 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i'r arolwg, a ddangosodd fod pobl yn fodlon iawn ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sir: Er enghraifft, dywedodd 85% o bobl eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael; dywedodd 81% eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a'u cymorth; roedd 83% yn teimlo'n ddiogel rhag niwed neu anaf; ac roedd 93% yn cael eu trin â pharch ac urddas.

30 Ailgylchu wedi gostwng ychydig yn 2018/19 i 58.94% o 63.64% y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf o ganlyniad i'r anawsterau â marchnadoedd allforio ar gyfer gwastraff gweddilliol (allfeydd tanwydd yn deillio o sbwriel). Fodd bynnag rydym wedi cyrraedd y targed statudol o 58%. Ni fydd data cymharol ar gael tan fis Tachwedd 2019 ond roeddem yn y 10fed safle ar gyfer 2017/18.

31, 32, 33 Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r rhwydwaith priffyrdd ail fwyaf yng Nghymru. Mae % y ffyrdd dosbarth A, B ac C yn Sir Gaerfyrddin sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) wedi cynyddu; mae ffyrdd dosbarth A wedi cynyddu o 4.1% i 5.2% ac wedi symud o'r 15fed safle i'r 21ain safle, ffyrdd dosbarth B o 3.1% i 4.2% gan symud o'r 5ed safle i'r 10fed safle, a ffyrdd dosbarth C o 11.9% i 12.5% ond yn parhau yn yr 17eg safle. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cyfateb i tua 180km o ffordd, ac mae hwn yn rhwydwaith go helaeth. Nid yw'r lefelau buddsoddi presennol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r dirywiad. Mae cyllid Adnewyddu Ffyrdd Ychwanegol a ddarperir yn 2018/19 a 2019/20 wedi cynnwys darnau y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar ein ffyrdd dosbarth 'A' a bydd hyn yn helpu i arafu'r dirywiad yn y rhwydwaith.

34 Cafodd cyfanswm o 97 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2018, sef cynnydd o'r nifer yn 2017 sef 83, ac erbyn hyn rydym yn yr 20fed safle yn hytrach na'r 21ain. Er na allwn reoli nifer y digwyddiadau traffig ffordd ar rwydwaith ffyrdd y sir, rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner i annog pobl i ddefnyddio'r ffordd yn fwy diogel, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, gyrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianneg diogelwch ffyrdd a dargedir, helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau cyflymder a mynd i'r afael â phryderon ynghylch goryrru.

35 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, dywedodd 37.8% o'r rhai a gymerodd ran eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai nag yn 2017/18 (43.6%) ond gennym ni mae'r ganran 4edd uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi syniad da yn flynyddol inni am nifer y siaradwyr Cymraeg, ond er bod y data'n hen bellach, mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigwr cywirach o 43.9% a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg sef ychydig dros 78,000.

36 Rhaid i bob dysgwr yn ei flwyddyn olaf yn y Cyfnod Sylfaen gael ei asesu drwy asesiadau athro. Derbyniodd 53.5% o'n disgyblion Cyfnod Sylfaen asesiad athro yn Gymraeg, a oedd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, sef 55%. Nid oes data cymaradwy wedi'i gyhoeddi ar gyfer y mesur hwn.

37 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd nifer y cyfranogwyr a fynychodd ddigwyddiad celfyddydol yng Nghymru yn ystod 2017/18 ychydig yn llai, sef 67.4% o 69.3% yn yr holiadur blaenorol. Mae hyn yn is na ffigur cyfartalog Cymru, sef 68%. Noder bod y cwestiwn yn gofyn a oeddent wedi bod yn y digwyddiadau celfyddydol hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd. Defnyddir y canlyniad hwn i fesur llesiant ein trigolion drwy fynychu digwyddiadau celfyddydol, yn hytrach na phresenoldeb penodol er mwyn cynnal ein lleoliadau.

39 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, gostyngodd nifer y cyfranogwyr a oedd wedi ymweld ag Amgueddfa yng Nghymru yn ystod 2017/18 ychydig i 34.6% o 36% yn yr holiadur blaenorol. Mae hyn yn is na ffigur cyfartalog Cymru, sef 40.4%. Noder bod y cwestiwn yn gofyn a oeddent wedi ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd. Defnyddir y canlyniad hwn i fesur llesiant ein trigolion drwy ymweld ag amgueddfeydd yn hytrach na phresenoldeb penodol er mwyn cynnal ein lleoliadau.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel a
Llewyrchus

# Canlyniad Arolwg Cenedlaethol Cymru Cyhoeddwyd Mehefin 2019

# Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 yw'r canlynol, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol,
ond ni ellir priodoli'r rhain i gyd i berfformiad y Cyngor
Lle bo'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn mewn arolwg blaenorol, mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi gwella ein perfformiad a'n safle.

Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol at ein safle yn 2018/19

| | Yn yr AF | Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol (DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol) | A yw ein canlyniad wedi gwella: Canlyniad arolwg blaenorol | Canlyniad arolwg 2018/19 | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| 1 | ✓ | Pobl yn gallu i gyrraedd at wybodaeth drwy'r dull a ffefrir. | 70.8 | 72.4 | ↑ | 62.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 86.6 |
| 2 | ✓ | Pobl yn **gwybod sut i ddysgu mwy am wasanaethau Awdurdod Lleol.** | 71.9 | 72.1 | ↑ | 63.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 84.3 |
| 3 | | Pobl yn cytuno **y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal** | 18.9 | 18.8 | ↓ | 13.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 24.4 |
| 4 | ✓ | % o bobl sy'n cytuno fod yr Awdurdod yn **ymgynghori a'r bobl leol wrth osod cyllideb.** | 8.0 | 11.3 | ↑ | O dan 7.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 20.8 |
| 5 | ✓ | Cytuno bod **gwasanaethau gofal cymdeithasol da** ar gael yn yr ardal leol | 56.2 | 47.5 | ↓ | 44.0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 57.8 |
| 6 | | % o bobl sy'n **fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt** *(o fewn 15 i 20 munud o waith cerdded o'u cartref)* (DLIC/24) | 85.2 | 75.4 | ↓ | 62.7 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 91.9 |
| 7 | ✓ | **Boddhad ag ysgol gynradd** y plentyn | 90 | 84 | ↓ | O dan 81 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 99 |
| 8 | | **Boddhad ag ysgol uwchradd** y plentyn | 69 | 89 | ↑ | Mae gormod o ddata sydd ar oll neud ddim yn ddibynadwy i gymharu dros awdurdodau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | ✓ | **Gallu siarad Cymraeg** (DLIC/37) | 43.6 | 37.8 | ↓ | O dan 8.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | Yr un fath | | | 66.0 |
| 10 | ✓ | % o bobl sy'n **siarad Cymraeg yn feunyddiol** ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. (DLIC/36) | 33.8 | 29.8 | ↓ | O dan 4.7 | | | | | | | | | | | | | | | | | | Yr un fath | | | 60.2 |
| 11 | ✓ | **Aelwydydd lle ceir amddifadedd materol** (DLICI/19) | 15.8 | 13.5 | ↑ | 17.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 8.6 |

Canlyniadau Gwaethaf → Canlyniadau Gorau

Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● ● at ein safle yn 2018/19 ■

| Yn yr AF | Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol<br>DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella: Canlyniad arolwg blaenorol | Canlyniad arolwg 2018/19 | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | Canlyniad gwaethaf (22ain) | Safle blaenorol | Safle 2018/19 | Canlyniad gorau (1af) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd - **Pob Oedolin** | 58.2 | 62.7 | ↑ | 57.1 | 22ain | 19eg | 77.9 |
| 13 | **Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd -**bensiynwyr** | 74 | 80 | ↑ | 73 | 20fed | 18fed | 91 |
| 14 | **Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd - **heb fod yn bensiynwyr** | 52 | 56 | ↑ | 49 | 22ain | 20fed | 77 |
| 15 | A oes gan y **cartref fynediad i'r rhyngrwyd** | 85.7 | 87.0 | ↑ | 79.7 | 9fed | 10fed | 93.2 |
| 16 ✓ | % Oedolion sy'n dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn** | 69 | 66 | ↓ | 65 | 14eg | 21ain | 78 |
| 17 ✓ | % Oedolion sy'n dweud bod ganddynt **salwch hirdymor** | 50 | 53 | ↓ | 55 | 16eg | 21ain | 38 |
| 18 ✓ | **Graddfa Lles Meddyliol Oedolyn - cyfanswm sgôr**<br>(Allan o sgôr uwch rif o 70) | 50 | 51 | ↑ | 50 | 15fed (Efo 5 arall) | 11eg (Efo 5 arall) | 53 |
| 19 | % o bobl sy'n cyfranogi mewn **gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos** (DLIC/38) | 34.7 | 35.1 | ↑ | 20.0 | 6ed | 8fed | 39.5 |
| 20 | % o oedolion sy'n **Smygu**<br>(cyfunwyd dwy flynedd o data) | 18.6 | 16.6 | ↑ | 21.9 | 9fed | 6ed | 13.7 |
| 21 | % o oedolion sydd yn **defnyddio e-sigarét** (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 7.0 | 7.0 | ↔ | 10.5 | 11eg | 14eg | 3.9 |
| 22 | % o oedolion a **defnydd alcohol wythnosol - dros 14 uned**<br>(cyfunwyd dwy flynedd o data) | 20.9 | 19.9 | ↑ | 25.0 | 19eg | 17eg | 13.4 |
| 23 | % o oedolion sydd yn **bwyta 5 dogn o lysiau a ffrwythau** y diwrnod<br>(cyfunwyd dwy flynedd o data) | 20.0 | 18.6 | ↓ | 14.7 | 16eg | 17eg | 31.7 |

| Yn yr AF | Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol<br>**DLIC** – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella: Canlyniad arolwg blaenorol | Canlyniad arolwg 2018/19 | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau |
| | | | | | Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol at ein safle yn 2018/19 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 24 | % o oedolion sydd yn **egnïol 150 munud yr wythnos** (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 58.8 | 55.3 | ↓ | 35.3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 63.5 |
| 25 | % o oedolion sydd yn **egnïol llai na 30 munud yr wythnos** (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 26.0 | 27.8 | ↓ | 54.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 25.0 |
| 26 | % o oedolion sydd yn **dros bwysau neu ordew (BMI 25+)** (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 57.8 | 61.7 | ↓ | 71.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 48.3 |
| 27 | % o oedolion sydd yn ordew (BMI 30+) (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 22.4 | 24.3 | ↓ | 31.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 14.2 |
| 28 ✓ | % Oedolion sydd â **llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach** (Allan o rhif 20-27 uchod) (cyfunwyd dwy flynedd o data) | 8.2 | 8.8 | ↓ | 15.9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 6.9 |
| 29 ✓ | % o bobl sy'n **cytuno bod cydlyniant cymunedol dda** yn eu hardal leol (DLIC/27) | 47.7 | 51.6 | ↑ | 38.1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 62.0 |
| 30 | % o bobl sy'n **teimlo ei bod yn perthyn i ardal leol** | 70.4 | 70.4 | ↔ | 63.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 83.8 |
| 31 | % Boddhad ag **ardal leol fel lle i fyw** (DLIC/26) | 88.8 | 88.4 | ↓ | 65.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 94.0 |
| 32 ✓ | **% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel** (DLIC/25) (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac yn teithio) | 78.7 | 76.1 | ↓ | 58.6 | | | | | | | | | | | | | | | Yr un fath | | | | | | 89.4 |
| 33 | % o bobl sy'n **teimlo'n ddiogel yn ei chartrefi** ar ôl iddi dywyllu | 98.4 | 96.8 | ↓ | 92.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 99.1 |
| 34 | % o bobl sy'n **teimlo'n ddiogel yn ei ardal leol** ar ôl iddi dywyllu | 84.3 | 84.4 | ↑ | 70.4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 91.6 |
| 35 | % o bobl sy'n **teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus** ar ôl iddi dywyllu | 84.1 | 82.5 | ↓ | 66.8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 91.3 |

Canlyniadau Gwaethaf → Canlyniadau Gorau

Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol ● at ein safle yn 2018/19 ■

| Yn yr AF | Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol<br>**DLIC** – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | A yw ein canlyniad wedi gwella: Canlyniad arolwg blaenorol | Canlyniad arolwg 2018/19 | Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 36 | % o bobl sy'n **teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car** ar ôl iddi dywyllu | 95.9 | 96.6 | ↑ | 93.0 | | | | | ● | | | | | ■ | | | | | | | | | | | 98.4 |
| 37 | % o bobl sy'n **teimlo'n ddiogel wrth gerdded wrth ei hun yn ei gofod gwyrdd lleol** | Newydd am 2018/19 | 91.7 | Ddim yn berthnasol | 83.9 | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | 99.1 |
| 38 | % o bobl sy'n **fodlon â'r ansawdd gofod gwyrdd lleol** | Newydd am 2018/19 | 80.9 | Ddim yn berthnasol | 72.3 | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | 93.1 |
| 39 | % o bobl **sy'n fodlon â'r gwasanaeth ailgylchu** | 85.1 | 80.4 | ↓ | 62.9 | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | ● | | | 90.5 |
| 40 | % o bobl **sy'n fodlon ar lefel y baeddu gan gŵn yn yr ardal leol**<br>**36.5% ddim yn fodlon** yn Sir Gâr | Newydd am 2018/19 | 56.2 | Ddim yn berthnasol | 31.2 | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | 73.0 |
| 41 | % o bobl **sy'n fodlon ar lefel y sbwriel yn yr ardal leol**<br>**38.7% ddim yn fodlon** yn Sir Gâr | Newydd am 2018/19 | 54.5 | Ddim yn berthnasol | 25.3 | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | 72.3 |
| 42 | % o bobl **sydd ddim yn poeni am lifogydd mewn eiddo personol**<br>**13% oedd yn poeni** yn Sir Gâr | Newydd am 2018/19 | 87.0 | Ddim yn berthnasol | 81.2 | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | 93.3 |
| 43 | % o bobl sydd **ddim yn poeni am lifogydd yn yr ardal leol**<br>**% oedd yn poeni** yn Sir Gâr | Newydd am 2018/19 | 63.8 | Ddim yn berthnasol | 52.5 | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | 84.5 |


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

# Sut mae ein canlyniadau am 2018/19 ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru

# Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ganlynol am fesurau y mae'n rhaid i bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ei chasglu -

- Ein canlyniad yn 2018/19 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2017/18
- Ein chwartel (graddiad seren) o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru
- Ein safle yn 2018/19 o'i gymharu â'n safle yn 2017/18

Canlyniadau Gwaethaf → Canlyniadau Gorau

Mae'r saethau yn dechrau o'n safle yn 2017/18 ● at ein safle yn 2018/19 ■

| | Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru | Ein canlyniad 2018/19 | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2017/18 i 2018/19 (Gwell ↑ / Cyson ↔ / Gostwng ↓) | Pa mor dda yw canlyniad 2018/19? (★ : Gwaethaf / ★★★★: Gorau) | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **WBO1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | % Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn *(PAM/029)* | 10.4 | ↓ | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | % Plant sy'n fodlon â'u gofal a'r cymorth *(PAM/027)* | 84.6 | ↑ | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | % Asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser *(PAM/028)* | 87.2 | ↓ | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO3 - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | % Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd *(PAM/007)* | 93.9 | ↓ | ★ | ■ ← | ● | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 95.2 |
| 5 | % Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd *(PAM/008)* | 93.8 | ↓ | ★★ | 92.5 | | | | | | | | | | ■ ← | | ● | | | | | | | | | 95.0 |
| 6 | Sgôr Capio 9 cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 *(PAM/032)* | 363.1 | ↑ | ★★★★ | 317.9 | | | | | | | | | | | | | | | ● → | ■ | | | | | 377.1 |
| | **WBO4 - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | % Gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) *(PAM/009)* | 1.8 | ↓ | ★★ | 2.9 | | | | | | ■ ← | | | ● | | | | | | | | | | | | 0.5 |
| | **WBO5 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | % Teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref *(PAM/012)* | 59.5 | ↓ | ★★ | 48.9 | | | | | | | | | ■ ← | ● | | | | | | | | | | | 82.4 |
| | **WBO7 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | % Eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd *(PAM/013)* | 7.40 | ↑ | ★★★★ | 0.57 | | | | | | | | | | | | | | | | ■ Yr un fath | | | | | 14.07 |
| 10 | Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ddechrau ail ddefnydd i eiddo gwag *(PAM/014)* | 7 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 11 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd *(PAM/036)* | 15.4 | ↑ | Dyledus Dachwedd 2019 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2017/18 i 2018/19: Ein canlyniad 2018/19 | Gwell ↑ / Cyson ↔ / Gostwng ↓ | Pa mor dda yw canlyniad 2018/19? (★ : Gwaethaf; ★★★★: Gorau) |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i gwblhau holl atgyweiriadau *(PAM/037)* | 14.6 | ↑ | ★★ |
| 13 | % y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)) *(PAM/038)* | 100.00 | ↔ | Dyledus Dachwedd 2019 |
| 14 | % y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag *(PAM/039)* | 2.9 | ↓ | ★ |
| | **WBO8 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)** | | | |
| 15 | % y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd *(PAM/040)* | 97.5 | ↑ | Dyledus Dachwedd 2019 |
| 16 | Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth *(PAM/017)* | 8,401 | ↓ | ★★ |
| 17 | % cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a barhaodd i gymryd rhan yn y rhaglen ymarfer corff ar ôl 16 wythnos *(PAM/041)* | 55.1 | ↑ | Dyledus Ragfyr 2019 |
| 18 | % cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff *(PAM/042)* | Result not available | Ddim yn berthnasol | Dyledus Ragfyr 2019 |
| 19 | % Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio â safonau *(PAM/023)* | 95.77 | ↓ | ★★★ |
| | **WBO10 - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio** | | | |
| 20 | Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl *(PAM/015)* | 157 | ↑ | ★★★ |
| 21 | Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed *(PAM/025)* | 4.21 | ↓ | Ddim yn berthnasol |
| 22 | % Yr oedolion sy'n fodlon â'u gofal a'r cymorth *(PAM/024)* | 84.6 | ↓ | Ddim yn berthnasol |
| 23 | % Y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi *(PAM/026)* | 64.4 | ↓ | Ddim yn berthnasol |

Canlyniadau Gwaethaf (22ain–12fed) — Canlyniadau Gorau (11eg–1af)

Mae'r saethau yn dechrau o'n safle yn 2017/18 (●) at ein safle yn 2018/19 (■)

| | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | |
| 13 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 14 | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | |
| 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | 5201 | | | | | | | | ■ | | | ● | | | | | | | | | | 13340 |
| 17 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 19 | 92.28 | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | ● | | | 99.19 |
| 20 | 298 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ● | 126 |
| 21 | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 22 | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 23 | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | Y mesurau a gyhoeddwyd gan yr holl gynghorau yng Nghymru | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2017/18 i 2018/19: Ein canlyniad 2018/19 | A yw ein canlyniad wedi gwella o 2017/18 i 2018/19: Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓ | Pa mor dda yw canlyniad 2018/19? ★ : Gwaethaf ★★★★: Gorau | 22ain | 21ain | 20fed | 19eg | 18fed | 17eg | 16eg | 15fed | 14eg | 13eg | 12fed | 11eg | 10fed | 9fed | 8fed | 7fed | 6ed | 5ed | 4ydd | 3ydd | 2il | 1af |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Canlyniadau Gwaethaf | | | | | | | | | | | Canlyniadau Gorau | | | | | | | | | | |
| | | | | | Mae'r saethau yn dechrau o'n safle yn 2017/18 (●) at ein safle yn 2018/19 (■) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO12 - Looking after the environment now and for the future** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 24 | % Yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd *(PAM/018)* | 72.6 | ↑ | ★ | ■ | ● | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 99.7 |
| 25 | % Yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd *(PAM/019)* | 71.4 | ↑ | ★★★ | 37.5 | | | | | | | | | ● | | | | | ■ | | | | | | | 90.0 |
| 26 | % Y strydoedd sy'n lân *(PAM/010)* | 91.5 | ↓ | ★ | 85.7 | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | ● | | | 99.4 |
| 27 | Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon *(PAM/035)* | 2.3 | ↓ | ★★★ | 6.2 | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | 0.2 |
| 28 | Cilogramau o wastraff trefol sydd heb ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person *(PAM/043)* | 179.7 | ↓ | Dyledus Dachwedd 2019 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 29 | % Y gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio *(PAM/030)* | 58.95 | ↓ | Dyledus Dachwedd 2019 | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | |
| | **WBO13 - Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 30 | % Y priffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/020)* | 5.2 | ↓ | ★ | 6.3 | ■ | | | | | | ● | | | | | | | | | | | | | | 1.7 |
| 31 | % Y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/021)* | 4.2 | ↓ | ★★★ | 6.5 | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | ● | | | | 1.4 |
| 32 | % Y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/022)* | 12.5 | ↓ | ★ | 21.6 | | | | | Yr un fath | | | | | | | | | | | | | | | | 3.0 |
| | **WBO14 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 33 | % y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen *(PAM/033)* | 53.5 | ↓ | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 34 | % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) *(PAM/034)* | 44.9 | ↑ | Ddim yn berthnasol | Dim gwybodaeth gymaradwy am y mesur hwn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 35 | Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch *(PAM/001)* | 9.8 | ↑ | ★★★ | 12.7 | | | | | | | | | | | ● | | | ■ | | | | | | | 8.3 |

**Noder nad oes Mesur(au) Cenedlaethol wedi dyrannu i bob amcanion llesiant**
**Mae eglurhad ar bob un o'r canlyniadau uchod ar gael dan yr Amcan Llesiant perthnasol *cyswllt i'n hadroddiad cynnydd manwl*.**

# Ein Hadroddiadau Rheoleiddiol

Cyhoeddwyd y rhestr ganlynol o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf:

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## ADDRODDIADAU LLEOL

| |
|---|
| Y Denfydd o Ddata gan Lywodraeth Leol (Ionawr 2019) |
| Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol - Amcan Llesiant 2 (Chwefror 2019) |
| Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau: Gwasanaethau Ar-lein (Mai 2019) |
| Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg (Gorffenaf 2019) |
| Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 (Medi 2019) |

## ADRODDIADAU CENEDLAETHOL

| |
|---|
| Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd (Hydref 2018) |
| Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig (Tachwedd 2018) |
| Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Tachwedd 2018) |
| Rheoli Gwastraff yng Nghymru:Ailgylchu Trefol (Tachwedd 2018) |
| Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata (Rhagfyr 2018) |
| Rheoli Gwastraff yng Nghymru - Atal Gwastraff (Mawrth 2019) |
| Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru (Mehefin 2019) |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar ein Hunanfyfyrio

Gofynnwyd i ni gwblhau ymarfer hunanfyfyrio ar ein cynnydd o ran ein Hamcanion Llesiant. Ym mis Gorffennaf 2019 cawsom yr adborth canlynol ar ein Hasesiad. Roedd yr adborth hwn yn rhy hwyr i lywio Adroddiad Blynyddol 2018-19 a bydd yn cael sylw mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## Asesiad o gynnydd cyffredinol:

- Yn gyffredinol, rydych yn gwneud cynnydd da ac rydym yn croesawu eich gwaith i gyfuno eich cynlluniau yn un, fel rhan o ddull mwy integredig.
- Yn eich Adroddiad Blynyddol, atodir mesurau llwyddiant wrth bob amcan llesiant, ond nid yw'n nodi'n glir y camau a ddisgwylir ar hyd y daith. Yn hytrach, mae'n adrodd ar yr hyn sy'n ymddangos fel mentrau ar wahân o dan bob amcan, gan ddisgrifio'r rhaglen benodol mewn rhai achosion, ac mewn eraill, esbonio'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y fenter. Nid yw'n disgrifio beth sy'n cael ei wneud yn wahanol o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a **hoffem weld tystiolaeth o hyn wrth adrodd yn y dyfodol. Argymhellwn eich bod yn ystyried disgrifio llwyddiant yn unol â disgwyliadau'r Comisiynydd a nodir yn yr adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: y daith hyd yn hyn'.**
- Ceir dealltwriaeth glir o'r 5 Ffordd o Weithio ac ymrwymiad iddynt. Er gwaethaf hyn, mae teimlad o hyd fod rhaglenni gwahanol ac anghymesur ar draws y Cyngor. Wrth adrodd yn y dyfodol, **hoffem gael gwell syniad o sut y mae'r enghreifftiau da hyn yn dod at ei gilydd i ffurfio darlun cydlynol o sut rydych yn gwella llesiant yn Sir Gaerfyrddin.**
- Yn yr un modd, rydych wedi dweud bod gennych elfennau o arfer da ond bod angen ichi ddod â'r cyfan ynghyd ar draws yr holl wasanaethau. Dylai eich bwriad i gyflwyno proses integredig o asesu effaith, gan gynnwys yr angen i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i'ch Amcanion Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio, helpu i hyrwyddo hyn.
- Rydych chi wedi nodi sut y bydd Amcan 15 yn eich galluogi i gyflawni yn y 7 maes newid corfforaethol, ac **rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol ar sut rydych chi wedi dechrau addasu eich ffyrdd o weithio** mewn perthynas â meysydd fel cynllunio ariannol, sicrhau adnoddau ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill, caffael nwyddau mewn ffyrdd sy'n cefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a chynllunio eich gweithlu ar gyfer y dyfodol.
- Cafodd eich gwaith yn galluogi pobl i gael mynediad i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ei adleisio yng nghanlyniadau bodlonrwydd Arolwg Cenedlaethol Cymru (y 3ydd gorau yng Nghymru). Fodd bynnag, cyfranogiad yw eich dull 'ffordd o weithio' sy'n sgorio isaf (5.5/10). Cyn bo hir rydym yn cyhoeddi *'taith tuag at gyfranogi',* a fydd yn rhoi cyngor am y camau y gallwch eu cymryd i helpu i ddangos cyfranogiad da, ac edrychwn ymlaen at weld cynnydd yn adroddiadau eleni.
- Rydym yn croesawu eich cynnydd o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a bu i reoleiddwyr ei ganmol am fod yn 'dda iawn'. Disgrifiwyd gwaith eich Tasglu Materion Gwledig, sef dull newydd, fel addawol iawn. Rydych hefyd wedi tynnu sylw at enghreifftiau cryf o gefnogi amcan 8 (Helpu pobl i fyw bywydau iach). Er enghraifft: y prosiect Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd, a ddisgrifiwyd fel un o'r datblygiadau cyntaf o'i fath yn y byd, sy'n cynnwys canolfan gofal sylfaenol a llecynnau wedi'u tirlunio ar gyfer cerdded a beicio a man chwarae plant/llecynnau ar gyfer perfformio yn yr awyr agored, eich ymdrechion o ran bod yn 'ganolbwynt beicio yng Nghymru' gyda Felodrom sydd newydd ei adnewyddu, Cylchffordd Gaeedig Pen-bre, Llwybr Beicio Dyffryn Tywi a rhwydwaith cynyddol o lwybrau Teithio Llesol; eich rhaglen Iechyd a Llesiant yn ceisio annog a chefnogi gweithwyr i wneud newidiadau positif i'w ffordd o fyw a chymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd drwy ddarparu cyngor, cymorth, digwyddiadau a gweithgareddau. **Mae'r rhain yn galonogol, ac rydym yn disgwyl gweld y cynnydd yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau'r dyfodol.**

## Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - Disgwyliadau Adroddiadau Blynyddol

Ym mis Mai 2018 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei adroddiad ar *'Lesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn '*. Nodwyd ganddi 9 o ddisgwyliadau allweddol ar gyfer adroddiadau blynyddol. Bydd y canllawiau hyn yn parhau i lywio adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**<br>**Disgwyliadau Adroddiadau Blynyddol a sut yr ydym yn eu cyrraedd.**<br>**Cyhoeddwyd Mai 2018**<br>**Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn – Mai 2018 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** |
|---|
| **Disgwyliad 1: Amcanion a Nodau Llesiant**<br>Roeddem wedi pennu ein Hamcanion Llesiant a'r camau roeddem yn mynd i'w cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant. |
| **Disgwyliad 2: Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**<br>Rydym yn croesawu'r *egwyddor datblygu cynaliadwy* ac yn ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin, tra'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.<br>Rydym wedi dwyn ynghyd ein *Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Amcanion Llesiant* a *chynllun 5 mlynedd* y Weinyddiaeth Newydd i greu *Strategaeth Gorfforaethol newydd.* Mae'r amcanion hyn yn cael eu rhaeadru i *Gynlluniau Busnes y Gwasanaeth* er mwyn sicrhau bod Gwasanaethau'n cyfrannu cymaint â phosibl at ein Hamcanion Llesiant. Mae Cynlluniau Busnes y Gwasanaeth yn egluro sut maent yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio yn y modd maent yn cyflawni eu busnes. |
| **Disgwyliad 3: Edrych ymlaen**<br>Mae newid yn cymryd amser. Mae ein Strategaeth Gorfforaethol Newydd yn cyfuno nifer o gynlluniau ac yn cysylltu â'n *gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy i bobl hŷn ar gyfer y degawd nesaf a Strategaeth Tai Fforddiadwy.* |
| **Disgwyliad 4: Olrhain cynnydd**<br>Ar gyfer pob un o'n Hamcanion Llesiant, gosodwyd cynlluniau gweithredu manwl gennym i'n hunain, a thrwy gydol y flwyddyn roeddem wedi monitro ein cynnydd yn chwarterol drwy System Monitro Gwybodaeth Perfformiad fewnol. Roedd pob Gwasanaeth ac Adran wedi adolygu'r cynnydd ac roedd Bwrdd Gweithredol y Cyngor a'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi gwneud yn siŵr fod popeth ar y trywydd iawn. Ddwywaith y flwyddyn hefyd adroddwyd am gynnydd i'r Pwyllgorau Craffu at ddibenion herio. |
| **Disgwyliad 5: Cymhwyso'r Ddeddf a'i rhoi ar waith**<br>Mae canllawiau'r Ddeddf yn nodi lle mae angen i newid ddigwydd mewn saith swyddogaeth gorfforaethol – cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, risg, cynllunio gweithlu, asedau, caffael a rheoli perfformiad. Rydym yn ymdrin â hyn yn Amcan Llesiant 15a a b.<br>Rydym wedi integreiddio'r dull hwn â'n Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n mabwysiadu 7 Egwyddor CIPFA/SOLACE *'Delivering Good Governance in Local Government'* – Cymru wedi'i ddiweddaru i gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Mae ein Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am gynnydd. |

## Disgwyliad 6: Hunanfyfyrio

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni adolygu perthnasedd parhaus ein Hamcanion Llesiant yn flynyddol.

| | Blaen-gynllunio | Adrodd Hunanfyfyrio | Adolygu |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | Amcanion Llesiant 2017-18 | Adroddiad Blynyddol am Amcanion Llesiant 2017-18 | *#1 Ymgynghoriad*<br>Bu i'r set gyhoeddwyd gennym erbyn mis Mawrth 2017, yn ôl gofynion y Ddeddf, gael ei hatgyfnerthu gan y weinyddiaeth newydd gafodd ei hethol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol Mai 2017 drwy ychwanegu Amcan Llesiant arall – *Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant.*<br>Yn dilyn cyhoeddi Amcanion Llesiant newydd Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ymarfer pen desg gennym i werthuso ein Hamcanion gan ddod i'r casgliad y dylent aros yr un peth. |
| 2018-19 | Adnewyddu'r Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018-23 | Adroddiad Blynyddol am Strategaeth Gorfforaethol 2018-19<br>I'w gyhoeddi Hydref 2019 | *#1 Ymgynghoriad*<br>Cyfuno 4 cynllun yn 1<br>Hefyd wedi ychwanegu Amcan Llesiant 15 *Adeiladu Gwell Cyngor* |
| 2019-20 | Adnewyddu'r Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018-23 | | *#1 Ymgynghoriad*<br>Gweler *Atodiad 1* ar adnewyddu |
| | *#1* Wedi ymgynghori ynghylch yr holl Amcanion Llesiant fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb | | |

## Disgwyliad 7: Cydweithio gyda Chyrff Cyhoeddus eraill

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mai 2018, cafodd Cynllun Llesiant cyntaf Sir Gaerfyrddin ei gymeradwyo. Sefydlodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfres o Grwpiau Cyflawni er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn Amcanion Llesiant a nodwyd.

| Y Diben | Y Dull | Dan arweiniad |
|---|---|---|
| **Arferion Iach** | Ymgyrchoedd Cydgysylltiedig | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Arferion Iach** | Asesiad Risg Amgylcheddol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Ymyrraeth Gynnar** | Newid y Model Darparu | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Cysylltiadau Cryf** | Asedau Cymunedol Arloesol | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |
| **Pobl a Lleoedd Ffyniannus** | Addysg a Chyflogaeth / Gweithdrefnau Caffael | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Cymunedau Mwy Diogel** | | Cyngor Sir Caerfyrddin |

Mae'r angen am newid diwylliannol mewn ymddygiad yn rhan annatod o'r holl ymagweddau a'r camau sy'n ofynnol.

## Disgwyliad 8: Atebolrwydd

Bu inni adrodd i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn chwarterol ynghylch y camau roeddem yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant, a lluniwyd adroddiadau rhyngweithiol gennym ar ein System Rheoli Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am bob amcan.

Rydym wedi adrodd i bob un o'r 5 pwyllgor craffu - ddwywaith yr un yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn ystyried sut i gynnwys pobl wrth gyd-lunio ein Hadroddiadau Blynyddol a hunan-werthuso.

## Disgwyliad 9: Gwneud eich adroddiadau'n glir

Mae Aelodau o'r farn fod y cynllun yn ddefnyddiol ac yn glir.

**Byddem yn croesawu adborth gennych - anfonwch eich sylwadau a'ch safbwyntiau atom i:**

**Rheoli Perfformiad**
TGCh a Pholisi Corfforaethol
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Ffôn: **01267 224486**
**E-bost: performance@carmarthenshire.gov.uk**

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor

**Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter - #AdroddiadSirGar**